# EGLWYS GYDENWADOL EMAUS BANGOR

England & Wales · Charity number 1188238

## Details

| | |
|---|---|
| **Status** | Registered |
| **Legal form** | CIO |
| **Registered** | 2020-02-28 |
| **Register** | View on the Charity Commission register |

## Contact

| | |
|---|---|
| **Address** | 11 Gorseddfa<br>Criccieth<br>LL52 0DW |
| **Phone** | 01248351243 |
| **Email** | ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com |
| **Website** | http://www.emausbangor.cymru |

## Activities

**Objects:** I HYRWYDDO'R FFYDD GRISTNOGOL, YN BENNAF TRWY DDARPARU MAN ADDOLI, YN UNOL AG EGWYDDORION ENWADAU'R ANNIBYNWYR A'R BEDYDDWYR YNG NGHYMRU FEL AELOD O UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG AC UNDEB BEDYDDWYR CYMRU.TO ADVANCE THE CHRISTIAN FAITH, PRIMARILY THROUGH THE PROVISION OF A PLACE OF WORSHIP, ACCORDING TO THE PRINCIPLES OF THE DENOMINATIONS OF INDEPENDENTS AND BAPTIST IN WALES AS A MEMBER OF THE UNION OF WELSH INDEPENDENTS AND THE BAPTIST UNION OF WALES.

**Activities:** I hyrwyddo'r ffydd Gristnogol, yn bennaf trwy ddarparu man addoli, yn unol ag egwyddorion Enwadau'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr yng Nghymru fel aelod o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Ein man addoli presennol yw Eglwys Gydenwadol Emaus, Lon Cariadon, Bangor, Gwynedd, LL57 2TE.

## Classification

- **How:** Provides Services
- **What:** Religious Activities
- **Who:** Children/young People, Elderly/old People, Other Charities Or Voluntary Bodies, The General Public/mankind

Downloaded from opencharities.uk/ew/1188238

## Geography

- Gwynedd

## Finances

| Period end | Income | Expenditure | Assets | Employees |
|---|---|---|---|---|
| 2024-12-31 | £73,819 | £76,059 | - | - |
| 2023-12-31 | £66,936 | £83,333 | - | - |
| 2022-12-31 | £52,737 | £75,475 | - | - |
| 2021-12-31 | £55,890 | £61,678 | - | - |
| 2020-12-31 | £49,502 | £63,289 | - | - |

## Trustees

| Name | Role | Appointed |
|---|---|---|
| **Dr Gareth Ffowc Roberts** | Chair | 2020-02-26 |
| David Llewelyn Jones | | 2020-02-26 |
| Dilwen Lloyd Jones | | 2021-02-18 |
| Dylan Owen | | 2022-11-01 |
| Gwyn Eirug Davies B.A. | | 2020-02-26 |
| Lowri Elis | | 2024-04-17 |
| Meriel Parry | | 2022-11-01 |
| Parch Casi Mackenzie Jones | | 2022-11-01 |
| Sian Arwel Davies | | 2022-11-01 |

Downloaded from opencharities.uk/ew/1188238

EGLWYS GYDENWADOL EMAUS BANGOR

England & Wales - Charity number 1188238

# Accounts

# Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr
# o 1 Ionawr 2024 hyd at 31 Rhagfyr 2024

## Enw'r Elusen: Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE

## Rhif yr Elusen: 1188238

## ❖ Amcanion a Gweithgareddau

Prif amcan yr Eglwys yw hyrwyddo'r ffydd Gristnogol yn ôl egwyddorion enwadau'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr yng Nghymru fel aelod o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gall yr Eglwys hefyd hybu addysg a chyflawni amcanion elusennol eraill yn y Deyrnas Unedig a/neu mewn rhannau eraill o'r byd.

Mae'r Eglwys wedi ei hymrwymo i gyrraedd cynulleidfa eang o fewn dinas Bangor a thu hwnt gan agor ei drysau i gynifer â phosibl i addoli yn yr Eglwys ac i fanteisio ar bob cyfle i ymuno mewn gweithgareddau addoli a chymdeithasol trwy gyfrwng y we a dulliau eraill. Mae'n rhoi ffydd ar waith mewn gweddi a gweithred, mewn cân a sacrament.

Wrth gynllunio ein gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn rhown bwyslais ar gynorthwyo pawb i fyw eu ffydd o ddydd i ddydd fel rhan o deulu'r Eglwys. Gwnawn hynny trwy:

- Addoli a gweddi; astudio'r Gair a datblygu ein dealltwriaeth o'r ffydd Gristnogol.
- Darparu gofal bugeiliol.
- Cynorthwyo plant a phobl ifanc i dyfu yn y ffydd.
- Hybu gwaith cenhadol.

I hyrwyddo'r gwaith hwn mae'n bwysig i ni gynnal yr adeilad a datblygu ein dulliau cyfrifiadurol, gan fanteisio ar y cyngor a'r cymorth a dderbynnir gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Undeb Bedyddwyr Cymru.

Wrth gynllunio a datblygu rhaglen waith yr Eglwys, rydym yn ceisio dilyn anogaethau ein ffydd a gwrando ar leisiau'n haelodau ac ymateb i bobl anghenus yn ein cymdeithas a'n byd gan wneud hynny yn ymwybodol o ganllawiau arweiniad y Comisiwn sy'n ymwneud gyda budd i'r cyhoedd.

## ❖ Cyflawniadau a Pherfformiad

### Addoliad a Gweddi

Yn ystod 2024, roedd modd i ni ddarparu oedfaon bob bore Sul ar nifer o themâu yn perthyn i'r ffydd Gristnogol. Roedd y gwasanaethau'n cynnwys y cyfle i addoli, i ddysgu mwy am ein ffydd ac i weddïo am faterion personol, lleol a rhyngwladol. Daeth y cyfle ym mis Chwefror i gydnabod cyfraniad y tîm o organyddion sy'n gwasanaethu'r eglwys ar y Sul. Rhwng y saith

ohonynt, roeddent wedi cyflawni 430 o flynyddoedd o wasanaeth. Manteisiwyd ar gyfle yn fisol i groesawu gweinidog gwadd i arwain ein gwasanaethau a'r gweddill yn cael eu harwain gan y gweinidog a nifer o blant, pobl ifanc ac oedolion. Gyda dyfodiad sgriniau ac offer pwrpasol i'r Capel, bu modd i ni ddechrau cynnwys mwy o'r elfen weledol yn ein mawl. Yn ystod 2024, dechreuwyd rhoi geiriau'r emynau ar powerpoint i'w dangos ar y sgriniau yn y Capel a hefyd y rhai sy'n ymuno â'r gwasanaethau o adre. Ddechrau'r flwyddyn cawsom siaradwr o bell yn annerch cyfarfod yn y Capel dan nawdd Cytûn sy'n agor posibiliadau cyffrous ar gyfer y dyfodol. Yn ystod y flwyddyn, dewisodd nifer o bobl ddod i'r capel i addoli ond roedd eraill, oherwydd rhesymau iechyd neu amgylchiadau arbennig, yn dewis ymuno ar Zoom naill ai drwy'r cyfrifiadur neu ar ffôn y tŷ. Gyda'r offer technolegol newydd, bu modd i ni wella ansawdd y lluniau a'r sain i'r rhai oedd yn ymuno o adre. Dosbarthwyd deunydd myfyrio wythnosol i 80 o gartrefi drwy'r We a dosbarthwyd yr un deunydd i 15 o gartrefi nad ydynt yn defnyddio'r We. Ar ddechrau 2024 roedd 148 o aelodau ar lyfrau'r eglwys ond mae dylanwad yr eglwys yn ehangach na hynny, a'i drysau'n agored, gan gynnwys dros y We, i gyrraedd cynulleidfa estynedig.

## Plant, pobl ifanc a'u teuluoedd

Er i ni lwyddo i gadw cysylltiad da gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn ystod cyfnod Covid, bu'n fwy anodd gwneud hynny wedi i fudiadau a sefydliadau eraill ailagor eu drysau a threfnu gweithgareddau ar foreuau Sul, yr adeg draddodiadol i gynnal oedfa ac Ysgol Sul. Serch hynny, cawsom nifer o wasanaethau bendithiol pob oed a chadw cysylltiad gyda'r teuluoedd yn ystod y flwyddyn.

## Addysg Oedolion

Mae dosbarth Ysgol Sul yr oedolion yn fforwm wythnosol werthfawr i astudio'r Beibl a dyfnhau dealltwriaeth o'n ffydd. Yn ystod 2024 roedd modd i ni dderbyn arweiniad gwahanol aelodau o'r dosbarth oedd yn ychwanegu at gyfoeth y sesiwn gan fanteisio ar adnoddau gwerthfawr yn y Gymraeg gan Gyhoeddiadau'r Gair.

## Cyfathrebu a Gofal Bugeiliol

Yn ogystal â derbyn deunydd addoli wythnosol, roedd aelodau a chyfeillion yr Eglwys yn derbyn llythyrau yn ystod y flwyddyn ar ebost neu trwy'r drws yn cynnwys newyddion am gyd-aelodau, hysbysiadau am ddigwyddiadau ac unrhyw ddiweddariad am drefniadau addoli yn y capel.

Yn ogystal, dosbarthwyd cylchgrawn misol – Y Negesydd –yn ddigidol ac yn gopïau caled i'r sawl oedd yn dymuno hynny drwy'r flwyddyn. Roedd hyn yn gyfle i'r aelodau ddefnyddio eu doniau creadigol i gyfrannu erthyglau a lluniau i'r cylchgrawn ac yn ychwanegu at ein nod o gyfathrebu'n dda i gadw pawb gyda'i gilydd.

Mae cyfathrebu'n effeithiol gyda'n haelodau a'n cyfeillion yn greiddiol i waith yr eglwys, boed trwy ymweliadau neu trwy godi ffôn neu trwy rannu deunydd darllen, y cyfan dan arweiniad gweinidog yr eglwys gyda chymorth rhwydwaith o gynorthwywyr.

Mae'r gweinidog a nifer o'r aelodau yn cadw cysylltiad hefyd gyda chleifion yn yr ysbyty, yn eu cartrefi ac mewn cartrefi gofal. O dro i dro, yn dilyn profedigaeth, cynhaliwyd gwasanaethau angladd ac ymweliadau bugeiliol gyda theuluoedd mewn galar a hyn yn rhan o ofal bugeiliol naturiol yr eglwys i'r galarus.

Yn ystod 2024, cynhaliwyd cyfarfodydd 'paned a sgwrs' misol yn festri'r eglwys, yn gyfle i aelodau a chyfeillion gynnal ei gilydd yn ogystal â thrafod materion y dydd. Er mor brysur yw bywydau pawb y dyddiau hyn, bu criw cyson, ffyddlon yn dod i'r weithgaredd yma oedd yn help i greu'r ymdeimlad o deulu.

## Gwaith cenhadol a chymdeithasol

Mewn blwyddyn arferol, mae grŵp o'r aelodau yn cynnal cyfarfodydd misol yn yr adeilad i hybu pryniant nwyddau Masnach Deg. Trwy ymdrechion lew y trefnwyr, llwyddwyd i gynnal y ddarpariaeth hon yn 2024 gan gynnig ystod eang o nwyddau er gwaetha'r ffaith bod Traidcraft ei hun wedi gorfod dirwyn i ben.

Llwyddodd yr Eglwys unwaith eto i gyfrannu at weithgareddau Cytûn Bangor yn cynnwys cydaddoli a chefnogi elusennau lleol. Llwyddwyd i ddal ati i gefnogi'r Banc Bwyd lleol a hynny mewn cyfnod pan mae mwy o angen nag erioed am y ddarpariaeth yma oherwydd y dirwasgiad yn dilyn y cyfnod clo.

Er gwaetha'r argyfwng costau byw, llwyddwyd i ddal ati i gyfrannu i roi cymorth dyngarol yn rhyngwladol. Cafwyd cefnogaeth dda i weithgareddau Cymorth Cristnogol a'r BMS (Baptist Missionary Society) yn ystod y flwyddyn gyda'r aelodau'n cael y fraint o gyfrannu'n hael yn ôl eu harfer at yr angen mewn gwledydd sy'n datblygu. Bu'r byd a'i anghenion yn ein gwasanaethau ac yn ein gweddïau'n gyson.

Braf oedd medru parhau i groesawu a chefnogi Ti a Fi i Emaus yn wythnosol yn ystod y tymhorau ysgol, cynllun Mudiad Ysgolion Meithrin i gefnogi plant, eu rhieni a'u gofalwyr a hybu'r defnydd o'r Gymraeg gyda phlant bach dan oed ysgol.

Mae'r noson agored yn Emaus dan nawdd mudiad Pobl i Bobl i gynnig cefnogaeth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches o bob cwr o'r byd yn parhau yn rhan bwysig o batrwm yr wythnos. Braf oedd medru gwneud defnydd llawn o adnoddau'r gegin i baratoi bwyd a chynnig ddillad ail-law yn enwedig cotiau cynnes ar gyfer y gaeaf ac offer coginio a dillad gwely pan fo angen. Mae'r cyfarfod nos Fercher yn gyfle iddynt dderbyn cefnogaeth gyda llenwi ffurflenni a mynychu cyfweliadau yn ymwneud â'u harhosiad yma ac i dderbyn cyngor a chymorth i gofrestru ar gyrsiau. Yn ystod y flwyddyn bu Cyngor Gwynedd yn cynnal sesiynau yn ystod gwyliau'r ysgol i famau a phlant dan arweiniad un o'n haelodau, Esyllt Bryn sy'n gweithio'n llawn amser ymhlith ffoaduriaid ar ran y Cyngor.

Mae'r bartneriaeth ddechreuwyd ddwy flynedd yn ôl rhyngom ag Eglwys Uniongred Blaenau Ffestiniog wedi parhau a thyfodd yr Offeren yn gyfle cenhadol iddynt estyn allan i bobl o nifer o wahanol gefndiroedd ac ieithoedd yn ardal Bangor. Yn ystod 2024, ordeiniwyd offeiriad newydd sef y Tad Lasarus i gynorthwyo'r Tad Deiniol yn y gwaith o arwain gwasanaethau a bugeilio'r praidd. Braf yw cael cefnogi eglwys arall yn ei chenhadaeth yn yr ardaloedd yma.

Braf oedd gweld Bugeiliaid y Stryd yn mynd allan ar eu teithiau bugeiliol ar benwythnosau yn ystod y tymor Coleg. Gyda phatrymau cymdeithasu myfyrwyr a phobl ifanc eraill yn newid, bu'r tîm yn addasu eu horiau a'u patrwm i ymateb i'r newidiadau. Wrth i nifer roi'r gorau i'r gwaith, braf oedd cael comisiynu aelod newydd i'r tim yn ystod y flwyddyn.

Braint oedd gwasanaethu Crist yn ei Eglwys ac yn ei fyd yn ystod 2024 dan arweiniad ein Tad Nefol, yng nghwmni Crist ein ffrind a'n Gwaredwr ac yn nerth yr Ysbryd Glân. Braf hefyd oedd cael cwmni'n gilydd fel gweinidog, swyddogion, aelodau a chyfeillion ar y daith.

Mae'r gweinidog a nifer o'r aelodau yn cadw cysylltiad hefyd gyda chleifion yn yr ysbyty, yn eu cartrefi ac mewn cartrefi gofal. Ddiwedd y flwyddyn, dechreuwyd ymweld â dau gartref gofal pob mis i gynnal gwasanaeth mewn cydweithrediad gydag Offeiriad o'r Eglwys yng Nghymru.

## ❖ Gwaith yr Is-bwyllgor Risg a Datblygu

Yn ystod 2024 parhawyd gyda'r gwaith o ddatblygu Polisi Iechyd a Diogelwch dan arweiniad yr Is-bwyllgor Risg a Datblygu, sy'n adrodd i'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr llawn a thrwy hwnnw i'r aelodau. Yn ogystal ag edrych ar faterion diogelwch yr adeilad a'r tir oddi amgylch, mae'r eglwys hefyd wedi penodi dwy i fod yn gyfrifol am y maes pwysig o ddiogelu plant ac oedolion bregus o fewn gweithgareddau'r eglwys - un ymddiriedolwr ac un aelod o'r Eglwys. Mae Meriel Parry yn gyfrifol am ddelio gydag unrhyw achosion diogelu sy'n codi ac Eleri Lloyd Jones yn gyfrifol am Hyfforddiant Diogelu a gwiriadau DBS o fewn yr Eglwys. Yn ystod 2024 cynhaliwyd gwasanaeth ar thema diogelu i sicrhau bod y neges yn glir i'r aelodau i gyd bod diogelu yn gyfrifoldeb i bob un ohonom. Dros y flwyddyn, mae pwysigrwydd asesiadau risg wedi parhau yn rhan naturiol o feddylfryd yr eglwys, ei phwyllgorau a'i haelodau. Mae rhagor o waith i'w gyflawni er mwyn sefydlu Polisi Iechyd a Diogelwch cynhwysfawr ac rydym yn derbyn anogaeth a chefnogaeth gyson gan y ddau Enwad rydym yn perthyn iddynt.

## ❖ Adolygiad Ariannol

Ein hincwm net am y flwyddyn oedd £73,829, sy'n gynnydd o 10% dros y flwyddyn flaenorol. Mae hyn oherwydd cynnydd sylweddol yn incwm o fuddsoddiadau'r Eglwys dros y flwyddyn flaenorol. Mae'r incwm o ffynonellau eraill, yn gyffredinol, wedi aros yr un fath â'r llynedd.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Cymanfa Undeb Bedyddwyr Arfon a Chyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon am eu grantiau sylweddol o £17515 a dderbyniwyd ganddynt yn 2024 tuag at gost cyflogi ein gweinidog. Gwariwyd 69% o'n hincwm net am y flwyddyn ar y weinidogaeth (72% y llynedd).

Cyfanswm yr offrymau gan ein haelodau am y flwyddyn (ac eithrio unrhyw ychwanegiad a wnaethpwyd ar gyfer Rhodd Cymorth) oedd £31,234, wedi'i ddadansoddi fel a ganlyn:

| | **Nifer o aelodau yn cyfrannu:** | | **Cyfanswm:** | |
|---|---|---|---|---|
| | 2024 | *(2023)* | 2024 | *(2023)* |
| £750 neu fwy | 10 | *(8)* | £9070 | *£9730* |
| Rhwng £500 a £749 | 10 | *(8)* | £5640 | *£4820* |
| Rhwng £250 a £499 | 26 | *(26)* | £8216 | *£8915* |
| Rhwng £100 a £249 | 40 | *(42)* | £7005 | *£7485* |
| Rhwng £5 a £99 | 24 | *(28)* | £1303 | *£1445* |
| Dim | 32 | *(35)* | £0 | *£0* |
| **Cyfanswm** | **142** | ***147*** | **£31234** | ***£32395*** |

Am bob aelod sydd wedi ei gofrestru ar lyfrau'r Eglwys rydym yn talu tâl aelodaeth i'r ddau Undeb. Y cyfanswm ar gyfer 2024 oedd £1970, sy'n cynrychioli £14 fesul aelod. Telir hwn os yw'r aelod yn cyfrannu'n ariannol i'r Eglwys neu beidio.

Mae ein haelodau wedi ymateb yn arbennig o dda a hael unwaith eto i apeliadau argyfwng byd-eang a lleol dros y flwyddyn, a chodwyd cyfanswm o £2550 rhwng Cymorth Cristnogol, BMS a Banc Bwyd Bangor.

Cynyddodd ein gwariant ar gostau rhedeg yr Eglwys 7% o'i gymharu â 2023. Unwaith eto roedd y cynnydd mwyaf sylweddol yn ymwneud â chostau ynni, enwedig cost nwy (£4760 am y flwyddyn). Mae'n debygol y bydd y costau hyn yn parhau drwy gydol 2025 nes y byddwn yn gallu sicrhau cytundeb newydd ar ddechrau 2026.

Ar ôl tynnu gwariant cyfalaf ac eithriadol mae'r cyfrifon yn dangos colled o £2230 am y flwyddyn. Ar yr ochr gadarnhaol roedd cynnydd sylweddol yn yr incwm o'n buddsoddiadau (£16025 o'i gymharu â £7900 yn y flwyddyn flaenorol). Fodd bynnag, mae ein costau ynni yn parhau i godi – yn y flwyddyn 2021 roeddent yn £1477 ac yn awr maent yn £7078, cynnydd enfawr o 380%!

Ers sefydlu'r SCE mae'r aelodau wedi awdurdodi a rhoi'r cyfrifoldeb i'r Ymddiriedolwyr rheoli cyllid yr Eglwys yn gadarn yn ôl ein cyfansoddiad, gofynion y Comisiwn Elusennol, a'n Polisi Cronfeydd Wrth Gefn sydd yn parhau fel a ganlyn:

> "Mae Ymddiriedolwyr Emaus SCE yn ystyried yn ddoeth, yn amodol ar adolygiad blynyddol i:
>
> • ddefnyddio'r incwm o'r buddsoddiadau i gryfhau incwm yr Eglwys a lleihau neu ddileu'r bwlch rhwng ein hincwm a'n gwariant.
>
> • defnyddio'r cyfalaf a fuddsoddwyd yn ein cronfeydd anghyfyngedig yn unig, cyn belled ag y bo modd, ar brosiectau penodol sy'n arwain at gyfoethogi nodau ac amcanion ein heglwys a'i Chyfansoddiad.
>
> • rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio'r cyfalaf i gyflwyno mesurau ataliol ac amddiffynnol i ddileu'r holl beryglon iechyd a diogelwch a nodir gan waith parhaus is-bwyllgor Rheoli Risg yr Ymddiriedolaeth."

Ar ddiwedd y flwyddyn cyfanswm ein cronfeydd wrth gefn oedd £686,485. O'r rhain roedd:

- £151,497 mewn cronfa cyfyngedig (arian o werthiant Pendref)
- £138,580 mewn cronfa dynodedig (arian o werthiant mans Pendref)
- Y gweddill o £396,408 ar gael fel cronfa anghyfyngedig

Ar wahân i'r cronfeydd anghyfyngedig, mae gweddill y cronfeydd (ynghyd ag adeilad presennol ein heglwys ar ôl iddo gael ei drosglwyddo i'r SCE) wedi'u neilltuo er mwyn parhau a sicrhau ein presenoldeb fel eglwys ym Mangor.

Gallwn adrodd bod yr holl gamau a phenderfyniadau ariannol a wnaethom yn ystod y flwyddyn wedi'u cyflawni yn unol â'r paramedrau uchod. Yn ogystal, mae goruchwyliaeth ein rheolaethau ariannol wedi'i chryfhau trwy benodi dau ymddiriedolwr, sydd hefyd yn ddiaconiaid yr Eglwys, i adolygu'r llyfrau a'r cofnodion a gedwir ar gyfer 2024 cyn eu cyflwyno i'r archwilwyr. Ardystiodd y ddau eu casgliadau fel a ganlyn:

> "Tystiaf fy mod wedi archwilio cyfrifon Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE am y flwyddyn 2024 ar ran yr aelodau a'r ymddiriedolwyr a'u cael yn gryno a chywir."

Hyd yn hyn nid yw adeilad yr Eglwys wedi'i drosglwyddo i'r SCE. Mae gwaith i gyflawni hyn yn parhau ond mae'n fwy cymhleth nag a ragwelwyd yn wreiddiol.

Yn olaf, mae'r ymddiriedolwyr yn hyderus wrth nodi nad oes gennym unrhyw ansicrwydd o gwbl y bydd Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE yn parhau fel mudiad Cristnogol gweithredol ym Mangor yn y dyfodol.

## ❖ Strwythur, Llywodraeth a Rheolaeth

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar faterion seciwlar sydd o bryder cyffredinol a phwysig i'r Eglwys gan gynnwys sut mae cronfeydd yr Eglwys yn cael eu rheoli a'u defnyddio, ac ymdrin â materion risg a'r potensial i ddatblygu'r eglwys. O'r naw ymddiriedolwr, un yw'r Gweinidog, pedwar yn ddiaconiaid a'r gweddill yn aelodau'r Eglwys. Mae hyn yn sicrhau perthynas cydlynol ac anwahanadwy rhwng bywyd ysbrydol a thymhorol yr eglwys.

Mae dogfen lywodraethol yr Eglwys yn Gyfansoddiad Sefydliad Corfforedig Elusennol gydag aelodau â phleidlais heblaw ei ymddiriedolwyr. Ysgrifennwyd y ddogfen hon yn dilyn canllawiau swyddogol y Comisiwn Elusennau.

Yn dilyn ymddeoliad un o'r ymddiriedolwyr yn 2023, ymgymerodd y Bwrdd i recriwtio ymddiriedolwr newydd yn unol ag Adran 13 Cymal 5 o'n Cyfansoddiad a chanllawiau swyddogol y Comisiwn Elusennau. Gwnaed penodiad o'r fath ar 17 Ebrill 2024.

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr SCE yn Eglwys Emaus ar 8 Rhagfyr 2024. Mynychodd 42 aelod y cyfarfod naill ai yn adeilad Emaus neu dros ZOOM. Cymeradwyodd y rhai a oedd yn bresennol adroddiad blynyddol yr SCE am y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2023. Yn unol â thelerau ein Cyfansoddiad, ymddeolodd tri ymddiriedolwr presennol yn ffurfiol yn y cyfarfod, gyda'r tri yn cynnig eu hunain i'w hailethol am gyfnod pellach. Yn dilyn trafodaeth gan yr aelodau, cytunwyd yn unfrydol i ailethol y tri am gyfnod arall.

## ❖ Manylion cyfeirnodi a gweinyddol


| | |
|---|---|
| Enw'r Elusen | Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE |
| Rhif elusen gofrestredig: | 1188238 |
| Prif gyfeiriad yr Elusen | Eglwys Gydenwadol Emaus<br>Lôn Cariadon<br>Bangor<br>Gwynedd LL57 2TE |
| Cyfeiriad gohebiaeth yr Elusen | 11 Gorseddfa<br>Criccieth<br>Gwynedd LL52 0DW |

| **Enw'r ymddiriedolwr** | **Swydd** | **Dyddiadau'n gweithredu (os nad am flwyddyn gyfan)** |
|---|---|---|
| Gareth Ffowc Roberts* | Cadeirydd; ysgrifennydd; aelod is-bwyllgor cyllid | **-** |
| Gwyn Eurig Davies* | Cyfreithiwr; aelod is-bwyllgor cyllid | **-** |
| Lowri Elis | Aelod is-bwyllgor Risg a Datblygu | **Penodwyd 17/04/24** |
| Dilwen Lloyd Jones* | Ysgrifennydd yr Aelodaeth; aelod is-bwyllgor cyllid | **-** |
| David Llewelyn Jones | Trysorydd; aelod is-bwyllgor cyllid | **-** |
| Parch Casi Mackenzie Jones | Gweinidog yr Eglwys; aelod is-bwyllgor Risg a Datblygu | - |
| Dylan Owen | Aelod is-bwyllgor Risg a Datblygu | - |
| Meriel Parry | Cadeirydd yr is-bwyllgor Risg a Datblygu | - |
| Siân Arwel Davies* | Aelod is-bwyllgor Risg a Datblygu | - |

**hefyd yn ddiaconiaid yr eglwys* 

**Ymddiriedolwyr corfforaethol** – Dim
**Enw'r ymddiriedolwyr sy'n dal teitl eiddo sy'n eiddo i'r elusen** - Dim
**Cronfeydd a ddelir fel ymddiriedolwyr ceidwad ar ran eraill** - Dim
**Eithriadau rhag datgelu** – Dim

## ❖ Datganiadau

| Mae'r ymddiriedolwyr yn datgan eu bod wedi cymeradwyo adroddiad yr ymddiriedolwyr uchod. Llofnodwyd ar ran ymddiriedolwyr yr elusen: | | |
|---|---|---|
| **Llofnod** |  |  |
| **Enw llawn** | Gareth Ffowc Roberts | David Llewelyn Jones |
| **Swydd** | Cadeirydd ac ymddiriedolwr | Ymddiriedolwr a thrysorydd |
| **Dyddiad** | 13 Awst 2025 | 13 Awst 2025 |

## Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE - Rhif:1188238 Datganiadau Ariannol am y flwyddyn i 31 Rhagfyr 2024

### Cyfrif Incwm a Gwariant

| | Cronfeydd anghyfyngedig | | Cronfeydd dynodedig | | Cronfeydd cyfyngedig | | Cyfanswm | | Y Llynedd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm yr Eglwys** | | | | | | | | | | |
| Offrymau | £ 31,044.00 | | £ - | | £ - | | **£ 31,044.00** | | *£ 32,395* | |
| Casgliad rhydd | £ 182.00 | | £ - | | £ - | | **£ 182.00** | | *£ 184* | |
| Llogi'r Adeilad | £ 1,959.99 | | £ - | | £ - | | **£ 1,959.99** | | *£ 1,615* | |
| Rhoddion | £ 550.00 | | £ - | | £ - | | **£ 550.00** | | *£ 200* | |
| Rhodd Pantyfedwen (Prosiect Technoleg) | £ - | | £ - | | £ - | | **£ -** | | *£ 2,000* | |
| Undeb yr Annibynnwyr | £ 4,350.00 | | £ - | | £ - | | **£ 4,350.00** | | *£ 3,750* | |
| Cyfundeb Arfon (Grant) | £ 5,500.00 | | £ - | | £ - | | **£ 5,500.00** | | *£ 5,500* | |
| Cymanfa Arfon (Grant) | £ 7,665.00 | | £ - | | £ - | | **£ 7,665.00** | | *£ 7,800* | |
| Rhodd Cymorth | £ 6,542.47 | | £ - | | £ - | | **£ 6,542.47** | | *£ 5,593* | |
| Llog | £ 16,025.34 | | £ - | | £ - | | **£ 16,025.34** | | *£ 7,900* | |
| ***Is-gyfanswm [A]*** | | **£ 73,818.80** | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 73,818.80** | | *£ 66,936* |
| **Costau cynnal yr Egwys o ddydd i ddydd** | | | | | | | | | | |
| Costau'r weinidogaeth - **nodyn (1)** | £ 51,077.42 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 51,077.42** | | *£ 47,996* | |
| Glanhau | £ 1,032.00 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 1,032.00** | | *£ 1,107* | |
| Cynnal ac atgyweirio | £ 3,636.62 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 3,636.62** | | *£ 3,528* | |
| Gwres a Goleu | £ 7,078.95 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 7,078.95** | | *£ 5,533* | |
| Yswiriant | £ 2,441.84 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 2,441.84** | | *£ 2,536* | |
| Garddio a chynnal tir | £ 1,890.00 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 1,890.00** | | *£ 1,780* | |
| Teleffon/gwasanaeth rhyngrwyd/Zoom | £ 1,848.05 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 1,848.05** | | *£ 1,858* | |
| Gwariant swyddfa a'r gegin | £ 195.76 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 195.76** | | *£ 137* | |
| Mudiad y Chwiorydd | £ 20.00 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 20.00** | | *£ 20* | |
| Ffi'r Archwiliwr | £ 3,030.00 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 3,030.00** | | *£ 2,886* | |
| Trethi Dwr | £ 271.56 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 271.56** | | *£ 287* | |
| Yr Ysgol Sul | £ 72.00 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 72.00** | | *£ -* | |
| Organ | £ 530.00 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 530.00** | | *£ 515* | |
| Trosglwyddiad yn ôl i Ymddiriedolwyr Pendref | £ - | | **£ -** | | **£ -** | | **£ -** | | *£ 175* | |
| Banc Bwyd (Cyfraniad yr Eglwys) | £ 660.00 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 660.00** | | *£ 660* | |
| Llungopiwr | £ 1,370.56 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 1,370.56** | | *£ 1,468* | |
| Amrywiol | £ 573.81 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 573.81** | | *£ 323* | |
| ***Is-gyfanswm [B]*** | | **£ 75,728.57** | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 75,728.57** | | *£ 70,810* |
| ***[A] llai [B] Net o dderbyniadau/(taliadau) [C]*** | | **-£ 1,909.77** | | **£ -** | | **£ -** | | **-£ 1,909.77** | | *-£ 3,874* |
| **Prynu Asedau a Gwariant eithriadol - Rhewgell** | £ 329.99 | | - | | - | | **£ 329.99** | | | |
| ***Is-gyfanswm (costau cyfalaf) [Ch]*** | | **£ 329.99** | | - | | - | | **£ 329.99** | | *-£ 12,523* |
| ***Net o dderbyniadau/(taliadau) rhedeg yr Eglwys [C] llai [Ch]*** | | **-£ 2,239.76** | | **£ -** | | **£ -** | | **-£ 2,239.76** | | *-£ 16,397* |
| **Apeliadau allanol (derbyniadau) - nodyn (2)** | **£ 2,550.60** | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 2,550.60** | | *£ 3,083* | |
| **Arian allan i'r mudiadau (ac eithrio cyfraniad yr Eglwys)** | | | | | | | | | | |
| Banc Bwyd (yn cynnwys £83 yn ddyledus o 2023) | £ 1,233.00 | | - | | - | | **£ 1,233.00** | | *£ 1,377* | |
| BMS | £ 810.35 | | - | | - | | **£ 810.35** | | *£ 116* | |
| Cymorth Cristnogol | £ 300.60 | | - | | - | | **£ 300.60** | | *£ 1,477* | |
| | **£ 2,343.95** | | - | | - | | **£ 2,343.95** | | *£ 2,970* | |
| ***Swm yn ddyledus i'w dalu ar ôl diwedd y flwyddyn - nodyn (3)*** | | **£ 206.65** | | - | | - | | **£ 206.65** | | *£ 113* |
| **Cyfanswm yr incwm llai'r gwariant am y flwyddyn** | | **-£ 2,033.11** | | **£ -** | | **£ -** | | **-£ 2,033.11** | | *-£ 16,284* |
| ***Cronfeydd ariannol 01/01/2023*** | | **£ 389,667.00** | | **£ 137,102.00** | | **£ 148,391.00** | | **£ 675,160.00** | | |
| ***Trosglwyddiadau*** | | **£ 5,000.00** | | | | | | **£ 5,000.00** | | |
| ***addasiad ailbrisio llai alldyniadau*** | | **£ 3,774.16** | | **£ 1,478.00** | | **£ 3,106.00** | | **£ 8,358.16** | | |
| ***Arian ar law ar ddiwedd y flwyddyn*** | | **£ 396,408.05** | | **£ 138,580.00** | | **£ 151,497.00** | | **£ 686,485.05** | | |

| Nodyn (1) | | |
|---|---|---|
| Costau'r Weinidogaeth | £ | 31,900 |
| Cynllun Pensiwn y Weinidogaeth | £ | 3,130 |
| Yswiriant Gwladol a Threth Incwm | £ | 8,159 |
| Cytun Bangor | £ | 100 |
| Llogi Swyddfa | £ | 4,399 |
| Yr Ysgol Sul | £ | 205 |
| Pregethwyr | £ | 1,215 |
| Undeb/Cymanfa Arfon | £ | 1,500 |
| Undeb/Cyfundeb Yr Annibynwyr | £ | 470 |
| | **£** | **51,077** |

| Nodyn (2) | | |
|---|---|---|
| Banc Bwyd | £ | 1,225 |
| BMS | £ | 990 |
| Cymorth Cristnogol | £ | 336 |
| | **£** | **2,551** |

| Nodyn (3) | | |
|---|---|---|
| Banc Bwyd | £ | 75 |
| BMS | £ | 180 |
| Cymorth Cristnogol | £ | 35 |
| | £ | 290 |
| llai £83 yn perthyn i 2023 | -£ | 83 |
| | **£** | **207** |

## Datganiad o Asedau a Dyledion ar 31 Rhagfyr 2024

| Cronfeydd Arian Parod | | Cronfeydd anghyfyngedig | | Cronfeydd dynodedig | | Cronfeydd cyfyngedig | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrif Banc - Arian allanol | £ | 908 | £ | - | £ | - | £ | 908 |
| Cyfrifon Banc - Arian yr Eglwys | £ | 10,308 | £ | - | £ | - | £ | 10,308 |
| Canaccord Genuity (Gwerthiant Pendref) | £ | - | £ | - | £ | 151,497 | £ | 151,497 |
| M&G Charifund (ex Ymddiriedolwyr Penuel) | £ | 17,107 | £ | - | £ | - | £ | 17,107 |
| Quilter | £ | 73,604 | £ | - | £ | - | £ | 73,604 |
| Canaccord Genuity (ex Ymddiriedolwyr Pendref) | £ | 294,481 | £ | 138,580 | £ | - | £ | 433,061 |
| ***Cyfanswm cronfeydd arian wrth gefn*** | **£** | **396,408** | **£** | **138,580** | **£** | **151,497** | **£** | **686,485** |

| Asedau Ariannol eraill | | Cronfa anghyfyngedig |
|---|---|---|
| Rhodd Cymorth | £ | 6,198 |

## Asedau a gedwir at ddefnydd yr elusen yn unig

| Manylion | | | Cost | | Gwerth 31/12/2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gliniadur (prynwyd yn 2020) | Cronfa anghyfyngedig | £ | 1,371 | £ | 200 |
| Microdon (2022) | Cronfa anghyfyngedig | £ | 87 | £ | 10 |
| Cloriau i'r rheiddiaduron yn y festri (2022) | Cronfa anghyfyngedig | £ | 4,338 | £ | 3,000 |
| Tostiwr (2023) | Cronfa anghyfyngedig | £ | 48 | £ | 30 |
| Ffôn Symudol (2023) | Cronfa anghyfyngedig | £ | 489 | £ | 15 |
| Prosiect Technoleg (2023) | Cronfa anghyfyngedig | £ | 12,946 | £ | 10,000 |
| Rhewgell (prynwyd yn 2024) | Cronfa anghyfyngedig | £ | 330 | £ | 200 |

## Dyledion

| | | | Cost |
|---|---|---|---|
| Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol | Cronfa anghyfyngedig | £ | 2,014 |
| Creative Pension | Cronfa anghyfyngedig | £ | 261 |
| Ecclesiastical Insurance | Cronfa anghyfyngedig | £ | 1,424 |
| Nwy Cymru | Cronfa anghyfyngedig | £ | 771 |

**Arwyddyd ar ran yr ymddiriedolwyr**

| | Llofnod | Enw | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| **Trysorydd** | | **David Llewelyn Jones** | **22 Medi 2025** |

## Eglwys Gydenwadol Emaus, Bangor

## Mantolen 31 Rhagfyr 2024

**Cyfalaf 01 Ionawr 2024**

| | | |
|---|---|---|
| Banc- NatWest Cyfredol | | £ 4,022.63 |
| Banc - NatWest Cadw | | £ 3,642.17 |
| Banc - NatWest Cyfrif arian allanol | | £ 584.19 |
| HSBC | | £ 19,381.56 |
| Canaccord Genuity (Cronfa dynodedig) | gwerthiant Pendref | £ 148,391.00 |
| Canaccord Genuity (anghyfyngedig 68%) | £ 278,161.48 | |
| Canaccord Genuity (dynodedig 32%) | £ 130,899.52 | £ 409,061.00 |
| Quilter (Cronfa anghyfyngedig) | | £ 74,383.75 |
| M&G (Cronfa anghyfyngedig) | | £ 15,693.11 |
| Elw/(Colled) | -£ 2,033.11 | |
| Trosglwyddiad o Quilter i gyfrif cyfredol | £ 5,000.00 | |
| Cynnydd yng ngwerth asedau | £ 8,358.75 | £ 11,325.64 |
| | | **£ 686,485.05** |

**Cyfalaf 31 Rhagfyr 2024**

| | | |
|---|---|---|
| Banc- NatWest Cyfredol | | £ 6,239.20 |
| Banc - NatWest Cadw | | £ 4,069.08 |
| Banc - NatWest Cyfrif arian allanol | | £ 907.60 |
| HSBC (Cronfa anghyfyngedig) | | £ 0.00 |
| Canaccord Genuity (Cronfa cyfyngedig) | | £ 151,497.00 |
| Canaccord Genuity (anghyfyngedig 68%) | £ 294,481.48 | |
| Canaccord Genuity (dynodedig 32%) | £ 138,579.52 | £ 433,061.00 |
| Quilter (Cronfa anghyfyngedig) | | £ 73,604.34 |
| M&G (Cronfa anghyfyngedig) | | £ 17,106.83 |
| | | **£ 686,485.05** |

**Cynnydd**

| | |
|---|---|
| Quilter | -£ 779.41 |
| Canaccord | £ 3,106.00 |
| Canaccord | £ 4,292.46 |
| M&G | £ 1,413.72 |
| HSBC | £ 325.98 |
| **Cyfanswm** | **£ 8,358.75** |

**Rhif Elusen: 1188238**

Docusign Envelope ID: 77CAE69C-6292-4CE8-A1C0-2418C8B3A038

COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

# Adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar y cyfrifon

## Adran A — Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adroddiad i ymddiriedolwyr/aelodau** | Enw'r Elusen<br>Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE | | |
| **Ar y cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu** | 31ain Rhagfyr 2024 | **Rhif yr Elusen (os oes)** | 1188238 |
| **I'w gweld ar dudalennau** | 1 - 11 (cofiwch gynnwys rhifau tudalennau dalennau ychwanegol) | | |

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr elusen uchod ("yr Ymddiriedolaeth") am y flwyddyn yn diweddu 31/12/2024.

**Cyfrifoldebau a'r sail adrodd**

Fel ymddiriedolwyr elusen yr Ymddiriedolaeth, rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais y Cyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad yr archwiliwr annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw (heblaw'r hyn a ddatgelir isod *) mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw agwedd berthnasol:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r cofnodion cyfrifyddu

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

**Dilëwch y geiriau mewn cromfachau os nad ydynt yn gymwys.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnodwyd:** | [signature] | **Dyddiad:** | 16/09/2025 |
| **Enw:** | Sian M. Williams | | |
| **Cymhwyster (cymwysterau) neu gorff proffesiynol perthnasol (os oes):** | ICAEW | | |
| **Cyfeiriad:** | 36, Stryd Fawr<br>Pwllheli<br>Gwynedd, LL53 5RT | | |

Docusign Envelope ID: 77CAE69C-6292-4CE8-A1C0-2418C8B3A038

| Adran B | Datgeliad |
|---|---|
| | Cwblhewch dim ond os oes angen i'r archwiliwr dynnu sylw at faterion o bryder (gweler CC32, Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwilwyr). |
| **Rhowch fanylion byr yma am unrhyw eitemau yr hoffai'r archwiliwr eu datgelu.** | |

**EGLWYS GYDENWADOL EMAUS BANGOR**

England & Wales - Charity number 1188238

# Accounts

# Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr
# o 1 Ionawr 2023 hyd at 31 Rhagfyr 2023

## Enw'r Elusen: Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE

## Rhif yr Elusen: 1188238

## ❖ Amcanion a Gweithgareddau

Prif amcan yr Eglwys yw hyrwyddo'r ffydd Gristnogol yn ôl egwyddorion enwadau'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr yng Nghymru fel aelod o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gall yr Eglwys hefyd hybu addysg a chyflawni amcanion elusennol eraill yn y Deyrnas Unedig a/neu mewn rhannau eraill o'r byd.

Mae'r Eglwys wedi ei hymrwymo i gyrraedd cynulleidfa eang o fewn dinas Bangor a thu hwnt gan agor ei drysau i gynifer â phosibl i addoli yn yr Eglwys ac i fanteisio ar bob cyfle i ymuno mewn gweithgareddau addoli a chymdeithasol trwy gyfrwng y we a dulliau eraill. Mae'n rhoi ffydd ar waith mewn gweddi a gweithred, mewn cân a sacrament.

Wrth gynllunio ein gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn rhown bwyslais ar gynorthwyo pawb i fyw eu ffydd o ddydd i ddydd fel rhan o deulu'r Eglwys. Gwnawn hynny trwy:

- Addoli a gweddi; astudio'r Gair a datblygu ein dealltwriaeth o'r ffydd Gristnogol.
- Darparu gofal bugeiliol.
- Cynorthwyo plant a phobl ifanc i dyfu yn y ffydd.
- Hybu gwaith cenhadol.

I hyrwyddo'r gwaith hwn mae'n bwysig i ni gynnal yr adeilad a datblygu ein dulliau cyfrifiadurol, gan fanteisio ar y cyngor a'r cymorth a dderbynnir gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Undeb Bedyddwyr Cymru.

Wrth gynllunio a datblygu rhaglen waith yr Eglwys, rydym yn ceisio dilyn anogaethau ein ffydd a gwrando ar leisiau'n haelodau ac ymateb i bobl anghenus yn ein cymdeithas a'n byd gan wneud hynny yn ymwybodol o ganllawiau arweiniad y Comisiwn sy'n ymwneud gyda budd i'r cyhoedd.

## ❖ Cyflawniadau a Pherfformiad

### Addoliad a Gweddi

Yn ystod 2023, roedd modd i ni ddarparu oedfaon bob bore Sul ar nifer o themâu yn perthyn i'r ffydd Gristnogol. Roedd y gwasanaethau'n cynnwys y cyfle i addoli, i ddysgu mwy am ein ffydd ac i weddïo am faterion personol, lleol a rhyngwladol. Manteisiwyd ar gyfle yn fisol i

groesawu gweinidog gwadd i arwain ein gwasanaethau a'r gweddill yn cael eu harwain gan y gweinidog a nifer o blant, pobl ifanc ac oedolion. Gyda dyfodiad sgriniau ac offer pwrpasol i'r Capel, bu modd i ni ddechrau cynnwys mwy o'r elfen weledol yn ein mawl.

Yn ystod y flwyddyn, dewisodd nifer o bobl ddod i'r capel i addoli ond roedd eraill, oherwydd rhesymau iechyd neu amgylchiadau arbennig, yn dewis ymuno ar Zoom naill ai drwy'r cyfrifiadur neu ar ffôn y tŷ. Gyda'r offer technolegol newydd, bu modd i ni wella ansawdd y lluniau a'r sain i'r rhai oedd yn ymuno o adre. Dosbarthwyd deunydd myfyrio wythnosol i 80 o gartrefi drwy'r We a dosbarthwyd yr un deunydd i 18 o gartrefi nad ydynt yn defnyddio'r We. Ar ddechrau 2023 roedd 150 o aelodau ar lyfrau'r eglwys ond mae dylanwad yr eglwys yn ehangach na hynny, a'i drysau'n agored, gan gynnwys dros y We, i gyrraedd cynulleidfa estynedig.

## Plant, pobl ifanc a'u teuluoedd

Er i ni lwyddo i gadw cysylltiad da gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn ystod cyfnod Covid, bu'n fwy anodd gwneud hynny wedi i fudiadau a sefydliadau eraill ailagor eu drysau a threfnu gweithgareddau ar foreuau Sul, yr adeg draddodiadol i gynnal oedfa ac Ysgol Sul. Serch hynny, cawsom nifer o wasanaethau bendithiol pob oed a chadw cysylltiad gyda'r teuluoedd yn ystod y flwyddyn.

## Addysg Oedolion

Mae dosbarth Ysgol Sul yr oedolion yn fforwm wythnosol werthfawr i astudio'r Beibl a dyfnhau dealltwriaeth o'n ffydd. Yn ystod 2023 roedd modd ini dderbyn arweiniad gwahanol aelodau o'r dosbarth oedd yn ychwanegu at gyfoeth y sesiwn gan fanteisio ar adnoddau gwerthfawr yn y Gymraeg gan Gyhoeddiadau'r Gair.

## Cyfathrebu a Gofal Bugeiliol

Yn ogystal â derbyn deunydd addoli wythnosol, roedd aelodau a chyfeillion yr Eglwys yn derbyn llythyrau yn ystod y flwyddyn ar ebost neu trwy'r drws yn cynnwys newyddion am gydaelodau, hysbysiadau am ddigwyddiadau ac unrhyw ddiweddariad am drefniadau addoli yn y capel.

Yn ogystal, dosbarthwyd cylchgrawn misol – *Y Negesydd* –yn ddigidol ac yn gopïau caled i'r sawl oedd yn dymuno hynny drwy'r flwyddyn. Roedd hyn yn gyfle i'r aelodau ddefnyddio eu doniau creadigol i gyfrannu erthyglau a lluniau i'r cylchgrawn ac yn ychwanegu at ein nod o gyfathrebu'n dda i gadw pawb gyda'i gilydd.

Mae cyfathrebu'n effeithiol gyda'n haelodau a'n cyfeillion yn greiddiol i waith yr eglwys, boed trwy ymweliadau neu trwy godi ffôn neu trwy rannu deunydd darllen, y cyfan dan arweiniad gweinidog yr eglwys gyda chymorth rhwydwaith o gynorthwywyr.

Mae'r gweinidog a nifer o'r aelodau yn cadw cysylltiad hefyd gyda chleifion yn yr ysbyty, yn eu cartrefi ac mewn cartrefi gofal. O dro i dro, yn dilyn profedigaeth, cynhaliwyd gwasanaethau angladd ac ymweliadau bugeiliol gyda theuluoedd mewn galar a hyn yn rhan o ofal bugeiliol naturiol yr eglwys i'r galarus.

Yn ystod 2023, cynhaliwyd cyfarfodydd 'paned a sgwrs' misol yn festri'r eglwys, yn gyfle i aelodau a chyfeillion gynnal ei gilydd yn ogystal â thrafod materion y dydd. Er mor brysur yw bywydau pawb y dyddiau hyn, bu criw cyson, ffyddlon yn dod i'r weithgaredd yma oedd yn help i greu'r ymdeimlad o deulu.

## Gwaith cenhadol a chymdeithasol

Mewn blwyddyn arferol, mae grŵp o'r aelodau yn cynnal cyfarfodydd misol yn yr adeilad i hybu pryniant nwyddau Masnach Deg . Trwy ymdrechion lew y trefnwyr, llwyddwyd i gynnal y ddarpariaeth hon yn 2023 gan gynnig ystod eang o nwyddau er gwaetha'r ffaith bod Traidcraft ei hun wedi gorfod dirwyn i ben.

Llwyddodd yr Eglwys unwaith eto i gyfrannu at weithgareddau Cytûn Bangor yn cynnwys cydaddoli a chefnogi elusennau lleol. Llwyddwyd i ddal ati i gefnogi'r Banc Bwyd lleol a hynny mewn cyfnod pan mae mwy o angen nag erioed am y ddarpariaeth yma oherwydd y dirwasgiad yn dilyn y cyfnod clo.

Er gwaetha'r argyfwng costau byw, llwyddwyd i ddal ati i gyfrannu i roi cymorth dyngarol yn rhyngwladol. Cafwyd cefnogaeth dda i weithgareddau Cymorth Cristnogol a'r BMS (Baptist Missionary Society) yn ystod y flwyddyn gyda'r aelodau'n cael y fraint o gyfrannu'n hael yn ôl eu harfer at yr angen mewn gwledydd sy'n datblygu. Bu'r byd a'i anghenion yn ein gwasanaethau ac yn ein gweddïau'n gyson.

Braf oedd medru parhau i groesawu a chefnogi Ti a Fi i Emaus yn wythnosol yn ystod y tymhorau ysgol, cynllun Mudiad Ysgolion Meithrin i gefnogi plant, eu rhieni a'u gofalwyr a hybu'r defnydd o'r Gymraeg gyda phlant bach dan oed ysgol.

Wedi i'r rhan fwyaf o'r ffoaduriaid o'r Wcrain symud o Fangor, penderfynwyd cynnig noson agored yn Emaus dan nawdd mudiad Pobl i Bobl i gynnig cefnogaeth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches o bob cwr o'r byd. Yn fuan iawn, gwelwyd bod hyn yn ychwanegiad gwerthfawr i'r ddarpariaeth ar gyfer cyfeillion sydd wedi byw yma ers rhai blynyddoedd a phobl sydd newydd gyrraedd. Braf oedd medru gwneud defnydd llawn o adnoddau'r gegin i baratoi bwyd a chynnig ddillad yn enwedig cotiau cynnes ar gyfer y gaeaf.

Mae'r bartneriaeth ddechreuwyd ddwy flynedd yn ôl rhyngom ag Eglwys Uniongred Blaenau Ffestiniog wedi parhau a thyfodd yr Offeren yn gyfle cenhadol iddynt estyn allan i bobl o nifer o wahanol gefndiroedd ac ieithoedd yn ardal Bangor.

Braf oedd gweld Bugeiliaid y Stryd yn mynd allan ar eu teithiau bugeiliol ar benwythnosau yn ystod y tymor Coleg. Gyda phatrymau cymdeithasu myfyrwyr a phobl ifanc eraill yn newid, bu'r tîm yn addasu eu horiau a'u patrwm i ymateb i'r newidiadau.

Braint oedd gwasanaethu Crist yn ei Eglwys ac yn ei fyd yn ystod 2023 dan arweiniad ein Tad Nefol, yng nghwmni Crist ein ffrind a'n Gwaredwr ac yn nerth yr Ysbryd Glân. Braf oedd cael cwmni'n gilydd fel gweinidog, swyddogion, aelodau a chyfeillion ar y daith.

## ❖ Gwaith yr Is-bwyllgor Risg a Datblygu

Yn ystod 2023 cymerwyd camau i ddatblygu Polisi Iechyd a Diogelwch dan arweiniad yr Is-bwyllgor Risg a Datblygu, sy'n adrodd i'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr llawn a thrwy hwnnw i'r aelodau. Mae'r gwaith yn parhau, rhai camau wedi'u cwblhau ac eraill eto ar y gweill.

Cafodd yr Is-bwyllgor arweiniad cadarn ar lafar (yn unig) gan arbenigwr allanol ym maes Asesiad Risg yn sail i'r Polisi Iechyd a Diogelwch. O ganlyniad i hynny nodwyd materion oedd angen sylw yn yr adeilad a'r tir cyfagos a chreuwyd rhestr yn ystod 2023 gan flaenoriaethu'r gwaith oedd angen ei wneud i leihau unrhyw risgiau i rai sy'n defnyddio'r adeilad a'r tir. Nodwyd yr angen i greu ac arddangos rhagor o bosteri i dynnu sylw at faterion Iechyd a Diogelwch a chymerwyd camau penodol i leihau'r risgiau. Yn benodol:

- gosodwyd dau flwch cymorth cyntaf, un yn y gegin ac un yn y cyntedd.
- gosodwyd rhybuddion ar y drysau a'r grisiau i'r llawr isod a'r festri.
- gosodwyd gorchuddion ar y gwresogyddion a'r pibellau i sicrhau diogelwch plant.
- cliriwyd y mwsogl yn y maes parcio a'r llwybrau o amgylch yr adeilad gan grŵp o'r aelodau.
- nodwyd yr angen i sicrhau bod sticeri PAT ar offer trydanol a chofnodi pryd cawsant eu profi.
- mae Cwmni Snowdonia yn anfon rhestr o beth wnaethpwyd yn ystod pob archwiliad ar yr offer tân. Cedwir y manylion gan y Trysorydd.

Dros y flwyddyn, mae pwysigrwydd asesiadau risg wedi dod i'r brig yn gynyddol ac yn rhan naturiol o feddylfryd yr eglwys, ei phwyllgorau a'i haelodau. Mae rhagor o waith i'w gyflawni er mwyn sefydlu Polisi Iechyd a Diogelwch cynhwysfawr a rhagwelir y bydd rhannu profiadau gyda sefydliadau tebyg yn rhan o'r broses honno.

## ❖ Adolygiad Ariannol

Ein hincwm net am y flwyddyn oedd £66,936, sy'n gynnydd o 42% dros y flwyddyn flaenorol. Gellir priodoli'r rhesymau am hyn yn bennaf i gynnydd mewn grantiau, a'r incwm o'r buddsoddiadau a dderbyniwyd, ond yn galonogol hefyd mae incwm o'r offrymau a llogi ein festri hefyd yn uwch na'r llynedd.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Cymanfa Undeb Bedyddwyr Arfon a Chyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon am eu grantiau sylweddol o £16,550 a dderbyniwyd ganddynt yn 2023 tuag at gost cyflogi ein gweinidog. Gwariwyd 72% o'n hincwm net am y flwyddyn ar y weinidogaeth (96% y llynedd).

Hoffem hefyd ddiolch yn ddiffuant i Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen am eu grant o £2000, ac i Gymanfa Undeb Bedyddwyr Arfon am eu grant o £500, tuag at gost ein Prosiect Technoleg.
Cyfanswm yr offrymau gan ein haelodau am y flwyddyn (ac eithrio unrhyw ychwanegiad a wnaethpwyd ar gyfer Rhodd Cymorth) oedd £32,395, wedi'i ddadansoddi fel a ganlyn:

| | Nifer o aelodau yn cyfrannu: | | Cyfanswm: | |
|---|---|---|---|---|
| | 2023 | *(2022)* | 2023 | *(2022)* |
| £750 neu fwy | 8 | *(7)* | £9730 | *£5860* |
| Rhwng £500 a £749 | 8 | *(10)* | £4820 | *£6120* |
| Rhwng £250 a £499 | 26 | *(26)* | £8915 | *£8775* |
| Rhwng £100 a £249 | 42 | *(40)* | £7485 | *£6547* |
| Rhwng £10 a £99 | 28 | *(27)* | £1445 | *£1150* |
| Dim | 35 | *(50)* | £0 | *£0* |
| **Cyfanswm** | **147** | ***160*** | **£32395** | ***£28452*** |

Am bob aelod sydd wedi ei gofrestru ar lyfrau'r Eglwys rydym yn talu tâl aelodaeth i'r ddau Undeb. Y cyfanswm ar gyfer 2023 oedd £1921, sy'n cynrychioli £13 fesul aelod. Telir hwn os yw'r aelod yn cyfrannu'n ariannol i'r Eglwys neu beidio.

Mae ein haelodau wedi ymateb yn arbennig o dda a hael unwaith eto i apeliadau argyfwng byd-eang a lleol dros y flwyddyn, a chodwyd cyfanswm o £3083 rhwng Cymorth Cristnogol, Ffoaduriaid, BMS a Banc Bwyd Bangor.

Cynyddodd ein gwariant ar gostau rhedeg yr Eglwys 17% o'i gymharu â 2022. Roedd y cynnydd mwyaf sylweddol yn ymwneud â chostau ynni, a chynnal ac atgyweirio. Cododd cost nwy a thrydan 143% oherwydd daeth ein contractau tair blynedd ar gyfer y ddau i ben ar ddechrau 2023. Yna cawsom ein hwynebu â'r cynnydd sylweddol yn y costau o ganlyniad i ddigwyddiadau byd-eang fel y rhyfel yn yr Wcráin.

Ar ôl tynnu gwariant cyfalaf ac eithriadol mae'r cyfrifon yn dangos colled o £2914 am y flwyddyn. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r golled o £12623 yn 2022. Y ffactor mwyaf am hyn oedd yr incwm o £7900 o'n buddsoddiadau, cynnydd sylweddol o'r £52 a dderbyniwyd yn 2022.

Mae ein polisi cronfeydd wrth gefn fel a ganlyn:

> "Mae Ymddiriedolwyr Emaus SCE yn ystyried yn ddoeth, yn amodol ar adolygiad blynyddol i:
>
> • ddefnyddio'r incwm o'r buddsoddiadau i gryfhau incwm yr Eglwys a lleihau neu ddileu'r bwlch rhwng ein hincwm a'n gwariant.
>
> • defnyddio'r cyfalaf a fuddsoddwyd yn ein cronfeydd anghyfyngedig yn unig, cyn belled ag y bo modd, ar brosiectau penodol sy'n arwain at gyfoethogi nodau ac amcanion ein heglwys a'i Chyfansoddiad.

• rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio'r cyfalaf i gyflwyno mesurau ataliol ac amddiffynnol i ddileu'r holl beryglon iechyd a diogelwch a nodir gan waith parhaus is-bwyllgor Rheoli Risg yr Ymddiriedolaeth.”

Gallwn adrodd bod yr holl gamau a phenderfyniadau ariannol a wnaethom yn ystod y flwyddyn wedi’u cyflawni yn unol â’r polisi hwnnw. Penderfynodd yr is-bwyllgor cyllid ddod â’n perthynas â HSBC i ben a throsglwyddo’r holl gyfalaf a fuddsoddwyd gyda nhw i Canaccord Genuity ynghyd â’r elw o werthu Eglwys Pendref. Mae hwn wedi bod yn benderfyniad llwyddiannus ar ein rhan. Yn ogystal â thwf cyfalaf, rydym bellach yn derbyn incwm sylweddol o'r buddsoddiad hwn. Disgwyliwn dderbyn incwm o leiaf o £15000 o'r holl fuddsoddiadau eleni.

Ar ddiwedd y flwyddyn yr unig ased sydd ar ôl i'w drosglwyddo i'r SCE yw adeilad Penuel. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau, rydym bellach mewn sefyllfa i symud ymlaen i drosglwyddo'r adeilad i Emaus.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar ein buddsoddiadau neu asedau sydd wedi’u gwneud, neu eu pennu gan unrhyw bersonau neu gyrff allanol. Pan fydd yr amser yn iawn bydd yr ymddiriedolwyr yn adolygu dynodiadau presennol ein buddsoddiadau i sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu anghenion a dymuniadau ein haelodau. Mae'r ymddiriedolwyr yn hyderus wrth nodi nad oes gennym unrhyw ansicrwydd o gwbl y bydd Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE yn parhau fel mudiad Cristnogol gweithredol ym Mangor yn y dyfodol.

## ❖ Strwythur, Llywodraeth a Rheolaeth

Mae’r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar faterion seciwlar sydd o bryder cyffredinol a phwysig i’r Eglwys gan gynnwys sut mae cronfeydd yr Eglwys yn cael eu rheoli a’u defnyddio, ac ymdrin â materion risg a’r potensial i ddatblygu'r eglwys. Mae chwech o’r ymddiriedolwyr naill ai’n ddiaconiaid neu’n swyddogion yr Eglwys, sy’n sicrhau bod perthynas cydlynol rhwng y ddau gorff.

Mae dogfen lywodraethol yr Eglwys yn Gyfansoddiad Sefydliad Corfforedig Elusennol gydag aelodau â phleidlais heblaw ei ymddiriedolwyr. Ysgrifennwyd y ddogfen hon yn dilyn canllawiau swyddogol y Comisiwn Elusennau.

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr SCE yn Eglwys Emaus ar 26 Tachwedd 2023. Mynychodd 35 aelod y cyfarfod naill ai yn adeilad Emaus neu dros ZOOM. Cymeradwyodd y rhai a oedd yn bresennol adroddiad blynyddol yr SCE am y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2022. Yn unol â thelerau ein Cyfansoddiad, ymddeolodd chwe ymddiriedolwr presennol yn ffurfiol yn y cyfarfod, gyda phump ohonynt yn cynnig eu hunain i'w hailethol am gyfnod pellach. Yn dilyn trafodaeth gan yr aelodau, cytunwyd yn unfrydol i ailethol y pump am flwyddyn arall.

Ymddeolodd David Ll Jones fel cadeirydd yr ymddiriedolwyr yn y cyfarfod ac etholwyd Gareth Ffowc Roberts yn gadeirydd yn ei le.

## ❖ Manylion cyfeirnodi a gweinyddol

| | |
|---|---|
| Enw’r Elusen | Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE |
| Rhif elusen gofrestredig: | 1188238 |
| Prif gyfeiriad yr Elusen | Eglwys Gydenwadol Emaus<br>Lôn Cariadon<br>Bangor<br>Gwynedd LL57 2TE |
| Cyfeiriad gohebiaeth yr Elusen | 11 Gorseddfa<br>Criccieth<br>Gwynedd LL52 0DW |

| **Enw’r ymddiriedolwr** | **Swydd** | **Dyddiadau'n gweithredu (os nad am flwyddyn gyfan)** |
|---|---|---|
| Gareth Ffowc Roberts* | Cadeirydd; ysgrifennydd; aelod is-bwyllgor cyllid | - |
| Gwyn Eurig Davies* | Cyfreithiwr; aelod is-bwyllgor cyllid | - |
| Dilwen Lloyd Jones* | Ysgrifennydd yr Aelodaeth; aelod is-bwyllgor cyllid | - |
| David Llewelyn Jones* | Trysorydd; aelod is-bwyllgor cyllid | - |
| Parch Casi Mackenzie Jones* | Gweinidog yr Eglwys; aelod is-bwyllgor Risg a Datblygu | - |
| Dylan Owen | Aelod is-bwyllgor Risg a Datblygu | - |
| Meriel Parry | Cadeirydd yr is-bwyllgor Risg a Datblygu | - |
| Siân Arwel Davies* | Aelod is-bwyllgor Risg a Datblygu | - |
| Alison Carden* | Aelod is-bwyllgor Risg a Datblygu | Ionawr 2023 – Tachwedd 2023 |

**hefyd yn ddiaconiaid neu swyddogion yr eglwys*

**Ymddiriedolwyr corfforaethol** – Dim
**Enw'r ymddiriedolwyr sy'n dal teitl eiddo sy'n eiddo i'r elusen** - Dim
**Cronfeydd a ddelir fel ymddiriedolwyr ceidwad ar ran eraill** - Dim
**Eithriadau rhag datgelu** – Dim

## ❖ Datganiadau

**Mae'r ymddiriedolwyr yn datgan eu bod wedi cymeradwyo adroddiad yr ymddiriedolwyr uchod. Llofnodwyd ar ran ymddiriedolwyr yr elusen:**

| | | |
|---|---|---|
| **Llofnod** |  |  |
| **Enw llawn** | Gareth Ffowc Roberts | David Llewelyn Jones |
| **Swydd** | Cadeirydd ac ymddiriedolwr | Ymddiriedolwr a thrysorydd |
| **Dyddiad** | 30 Medi 2024 | 30 Medi 2024 |

# Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE Rhif : 1188238

## Datganiadau Ariannol am y flwyddyn i 31 Rhagfyr 2023

### Cyfrif Incwm a Gwariant

| | Incwm anghyfyngedig | | Incwm dynodedig | | Incwm cyfyngedig | | Cyfanswm | | Y Llynedd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm yr Eglwys** | | | | | | | | | | |
| Offrymau | £ 32,395.00 | | £ - | | £ - | | **£ 32,395.00** | | *£ 28,452* | |
| Casgliad rhydd | £ 183.50 | | £ - | | £ - | | **£ 183.50** | | *£ 105* | |
| Llogi'r Adeilad | £ 1,615.00 | | £ - | | £ - | | **£ 1,615.00** | | *£ 120* | |
| Rhoddion | £ 200.00 | | £ - | | £ - | | **£ 200.00** | | *£ 200* | |
| Rhodd Pantyfedwen (Prosiect Technoleg) | £ 2,000.00 | | £ - | | £ - | | **£ 2,000.00** | | *£ -* | |
| Undeb yr Annibynnwyr | £ 3,750.00 | | £ - | | £ - | | **£ 3,750.00** | | *£ -* | |
| Cyfundeb Arfon (Grant) | £ 5,500.00 | | £ - | | £ - | | **£ 5,500.00** | | *£ 5,500* | |
| Cymanfa Arfon (Grant) | £ 7,800.00 | | £ - | | £ - | | **£ 7,800.00** | | *£ 6,960* | |
| Rhodd Cymorth | £ 5,592.73 | | £ - | | £ - | | **£ 5,592.73** | | *£ 5,651* | |
| Llog | £ 7,899.93 | | £ - | | £ - | | **£ 7,899.93** | | *£ 52* | |
| ***Is-gyfanswm [A]*** | | **£ 66,936.16** | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 66,936.16** | | *£ 47,040* |
| **Costau cynnal yr Egwys o ddydd i ddydd** | | | | | | | | | | |
| Costau'r weinidogaeth - **nodyn (1)** | £ 47,996.31 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 47,996.31** | | *£ 45,033* | |
| Glanhau | £ 1,107.00 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 1,107.00** | | *£ 1,185* | |
| Cynnal ac atgyweirio | £ 3,528.44 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 3,528.44** | | *£ 472* | |
| Gwres a Goleu | £ 5,533.43 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 5,533.43** | | *£ 2,278* | |
| Yswiriant | £ 2,535.86 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 2,535.86** | | *£ 2,409* | |
| Garddio a chynnal tir | £ 1,780.00 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 1,780.00** | | *£ 1,230* | |
| Teleffon/gwasanaeth rhyngrwyd/Zoom | £ 1,858.02 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 1,858.02** | | *£ 1,888* | |
| Gwariant swyddfa a'r gegin | £ 136.93 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 136.93** | | *£ 71* | |
| Mudiad y Chwiorydd | £ 20.00 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 20.00** | | *£ 20* | |
| Ffi'r Archwiliwr | £ 2,886.00 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 2,886.00** | | *£ 2,520* | |
| Trethi Dwr | £ 287.22 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 287.22** | | *£ 253* | |
| Organ | £ 515.00 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 515.00** | | *£ 515* | |
| Trosglwyddiad yn ôl i Ymddiriedolwyr Pendref | £ 174.99 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 174.99** | | | |
| Banc Bwyd (Cyfraniad yr Eglwys) | £ 660.00 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 660.00** | | | |
| Llungopiwr | £ 1,468.15 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 1,468.15** | | *£ 1,461* | |
| Amrywiol | £ 323.00 | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 323.00** | | *£ 328* | |
| ***Is-gyfanswm [B]*** | | **£ 70,810.35** | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 70,810.35** | | *£ 59,663* |
| ***[A] llai [B] Net o dderbyniadau/(taliadau) [C]*** | | **-£ 3,874.19** | | **£ -** | | **£ -** | | **-£ 3,874.19** | | **-£ 12,623** |
| **Prynu Asedau a Gwariant eithriadol** | | | | | | | | | | |
| Tostiwr | £ 47.99 | | - | | - | | **£ 47.99** | | | |
| Ffôn Symudol | £ 489.00 | | - | | - | | **£ 489.00** | | | |
| Prosiect Technoleg | £ 11,985.85 | | - | | - | | **£ 11,985.85** | | | |
| ***Is-gyfanswm (costau cyfalaf) [Ch]*** | | **£ 12,522.84** | | **-** | | **-** | | **£ 12,522.84** | | *£ 7,011* |
| ***Net o dderbyniadau/(taliadau) rhedeg yr Eglwys [C] llai [Ch]*** | | **-£ 16,397.03** | | **£ -** | | **£ -** | | **-£ 16,397.03** | | **-£ 19,634** |
| **Apeliadau allanol (derbyniadau) - nodyn (2)** | **£ 3,082.70** | | **£ -** | | **£ -** | | **£ 3,082.70** | | £ 5,698 | |
| **Arian allan i'r mudiadau** | | | | | | | | | | |
| Ffoaduriaid | £ - | | - | | - | | **£ -** | | *£ 675* | |
| Banc Bwyd | £ 1,377.00 | | - | | - | | **£ 1,377.00** | | *£ 3,180* | |
| BMS | £ 115.55 | | - | | - | | **£ 115.55** | | *£ 2,276* | |
| Cymorth Cristnogol | £ 1,477.00 | | - | | - | | **£ 1,477.00** | | *£ 2,670* | -£ 3,103 |
| | **£ 2,969.55** | | - | | - | | **£ 2,969.55** | | | |
| ***Swm yn ddyledus i'w dalu ar ô l diwedd y flwyddyn*** | | **£ 113.15** | | **-** | | **-** | | **£ 113.15** | | |
| ***Cyfanswm yr incwm llai'r gwariant am y flwyddyn*** | | **-£ 16,283.88** | | **£ -** | | **£ -** | **£ -** | **-£ 16,283.88** | | *-£ 22,737* |
| ***Cronfeydd ariannol 01/01/2023*** | | **£ 388,311** | | **£ 129,878** | | **£ -** | | **£ 518,189** | | |
| ***Elw gwerthiant Pendref wedi eu trosglwyddo*** | | | | | | **£ 146,568** | | **£ 146,568** | | |
| ***addasiad ailbrisio llai alldyniadau*** | | **£ 17,640** | | **£ 7,224** | | **£ 1,823** | | **£ 26,686** | | |
| ***Arian ar law ar ddiwedd y flwyddyn*** | | **£ 389,667** | | **£ 137,102** | | **£ 148,391** | | **£ 675,159** | | ***£ 518,189*** |

# Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE          Rhif : 1188238

| **Nodyn (1)** | | |
|---|---|---|
| Costau'r Weinidogaeth | £ | 29,798 |
| Cynllun Pensiwn y Weinidogaeth | £ | 3,007 |
| Yswiriant Gwladol a Threth Incwm | £ | 8,269 |
| Cytun Bangor | £ | 100 |
| Llogi Swyddfa | £ | 3,959 |
| Yr Ysgol Sul | £ | 18 |
| Pregethwyr | £ | 925 |
| Undeb/Cymanfa Arfon | £ | 1,462 |
| Undeb/Cyfundeb Yr Annibynwyr | £ | 459 |
| | **£** | **47,996** |

| **Nodyn (2)** | | |
|---|---|---|
| Banc Bwyd | £ | 1,500 |
| BMS | £ | 933 |
| Cymorth Cristnogol | £ | 650 |
| | **£** | **3,083** |

## Datganiad o Asedau a Dyledion ar 31 Rhagfyr 2023

| **Cronfeydd Arian Parod** | **Cronfeydd anghyfyngedig** | **Cronfeydd dynodedig** | **Cronfeydd cyfyngedig** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrif Banc - Arian allanol | £ 584 | £ - | £ - | £ 584 |
| Cyfrifon Banc - Arian yr Eglwys | £ 7,665 | £ - | £ - | £ 7,665 |
| Canaccord Genuity (Gwerthiant Pendref) | £ - | £ - | £ 148,391 | £ 148,391 |
| M&G Charifund (ex Ymddiriedolwyr Penuel) | £ 15,693 | £ - | £ - | £ 15,693 |
| HSBC (ex Ymddiriedolwyr Pendref) | £ 13,179 | £ 6,202 | £ - | £ 19,382 |
| Quilter | £ 74,384 | £ - | £ - | £ 74,384 |
| Canaccord Genuity (ex Ymddiriedolwyr Pendref) | £ 278,161 | £ 130,900 | £ - | £ 409,061 |
| ***Cyfanswm cronfeydd arian wrth gefn*** | **£ 389,667** | **£ 137,102** | **£ 148,391** | **£ 675,159** |

| **Asedau Ariannol eraill** | | **Cronfa anghyfyngedig** |
|---|---|---|
| Rhodd Cymorth | £ | **6,542** |

## Asedau a gedwir at ddefnydd yr elusen yn unig

| **Manylion** | | **Cost** | **Gwerth 31/12/2023** |
|---|---|---|---|
| Gliniadur (prynwyd yn 2020) | Cronfa anghyfyngedig | £ 1,371 | £ 350 |
| Gasebo (prynwyd yn 2021) | Cronfa anghyfyngedig | £ 196 | £ - |
| Microdon (2022) | Cronfa anghyfyngedig | £ 87 | £ 30 |
| Cloriau i'r rheiddiaduron yn y festri (2022) | Cronfa anghyfyngedig | £ 4,338 | £ 3,500 |
| Tostiwr (2023) | Cronfa anghyfyngedig | £ 48 | £ 40 |
| Ffôn Symudol (2023) | Cronfa anghyfyngedig | £ 489 | £ 350 |
| Prosiect Technoleg (2023) | Cronfa anghyfyngedig | £ 12,946 | £ 12,000 |

## Dyledion

| | | **Cost** |
|---|---|---|
| Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol | Cronfa anghyfyngedig | £ 2,263 |
| Creative Pension | Cronfa anghyfyngedig | £ 261 |
| Apeliadau allanol (Banc Bwyd) | Cronfa anghyfyngedig | £ 113 |
| Ecclesiastical Insurance | Cronfa anghyfyngedig | £ 1,730 |
| Nwy Cymru | Cronfa anghyfyngedig | £ 836 |

| **Arwyddyd ar ran yr ymddiriedolwyr** | **Llofnod** | **Enw** | **Dyddiad** |
|---|---|---|---|
| **Trysorydd** | [signature] | **David Llewelyn Jones** | **30 Medi 2024** |

# Adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar y cyfrifon

**Adran A** | **Adroddiad yr archwiliwr annibynnol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adrodd i ymddiriedolwyr** | Enw'r Elusen<br>Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE | | |
| **Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn yn diweddu** | 31ain Rhagfyr 2023 | **Rhif Elusen** | 1188238 |

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr elusen uchod am y flwyddyn yn diweddu 31 / 12 / 2023.

**Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad**

Fel ymddiriedolwyr elusen yr Ymddiriedolaeth, rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais y Cyfarwyddiadau cymwyr a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad yr archwiliwr annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad annibynnol sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw agwedd berthnasol:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r cofnodion cyfrifyddu

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Arwyddwyd:** | [signature] | **Dyddiad:** | 30/09/24 |
| **Enw:** | Sian M Williams | | |
| **Cymhwyster(au) neu gorff proffesiynol perthnasol (os oes rhai):** | ICAEW | | |
| **Cyfeiriad:** | 36, Stryd Fawr<br>Pwllheli<br>Gwynedd, LL53 5RT | | |

**EGLWYS GYDENWADOL EMAUS BANGOR**

England & Wales - Charity number 1188238

# Accounts

# Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr o 1 Ionawr 2022 hyd at 31 Rhagfyr 2022

## Enw'r Elusen: Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE

## Rhif yr Elusen: 1188238

## ❖ Amcanion a Gweithgareddau

Prif amcan yr Eglwys yw hyrwyddo'r ffydd Gristnogol yn ôl egwyddorion enwadau'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr yng Nghymru fel aelod o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gall yr Eglwys hefyd hybu addysg a chyflawni amcanion elusennol eraill yn y Deyrnas Unedig a/neu mewn rhannau eraill o'r byd.

Mae'r Eglwys wedi ei hymrwymo i gyrraedd cynulleidfa eang o fewn dinas Bangor a thu hwnt gan agor ei drysau i gynifer â phosibl i addoli yn yr Eglwys ac i fanteisio ar bob cyfle i ymuno mewn gweithgareddau addoli a chymdeithasol trwy gyfrwng y we a dulliau eraill. Mae'n rhoi ffydd ar waith mewn gweddi a gweithred, mewn cân a sacrament.

Wrth gynllunio ein gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn rhown bwyslais ar gynorthwyo pawb i fyw eu ffydd o ddydd i ddydd fel rhan o deulu'r Eglwys. Gwnawn hynny trwy:

Addoli a gweddi; astudio'r Gair a datblygu ein dealltwriaeth o'r ffydd Gristnogol.
Darparu gofal bugeiliol.
Cynorthwyo plant a phobl ifanc i dyfu yn y ffydd.
Hybu gwaith cenhadol.

I hyrwyddo'r gwaith hwn mae'n bwysig i ni gynnal yr adeilad a datblygu ein dulliau cyfrifiadurol, gan fanteisio ar y cyngor a'r cymorth a dderbynnir gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Undeb Bedyddwyr Cymru.

Wrth gynllunio a datblygu rhaglen waith yr Eglwys, rydym yn ceisio dilyn anogaethau ein ffydd a gwrando ar leisiau'n haelodau ac ymateb i bobl anghenus yn ein cymdeithas a'n byd gan wneud hynny yn ymwybodol o ganllawiau arweiniad y Comisiwn sy'n ymwneud gyda budd i'r cyhoedd.

## ❖ Cyflawniadau a Pherfformiad

### Ailadeiladu

Cyfnod o ailadeiladu fu 2022 mewn llawer ffordd. Er cymaint y temtasiwn i fynd yn ôl i sut oedd pethau cyn y Pandemig, llwyddwyd i ddysgu o'r cyfnod clo ac i fabwysiadu rhai o'r pethau gorau oedd wedi codi fel rhan o strategaeth goroesi yn ystod y cyfnod hwnnw yn rhan annatod o fywyd a gwaith yr eglwys wrth symud ymlaen.

## Addoliad a Gweddi

Yn ystod y flwyddyn, roedd modd i ni ddarparu oedfaon bob bore Sul ar nifer o themâu yn perthyn i'r ffydd Gristnogol. Roedd y gwasanaethau'n cynnwys y cyfle i addoli, i ddysgu mwy am ein ffydd ac i weddïo am faterion personol, lleol a rhyngwladol. Manteisiwyd ar gyfle yn fisol i groesawu gweinidog gwadd i arwain ein gwasanaethau a'r gweddill yn cael eu harwain gan y gweinidog a nifer o blant, pobl ifanc ac oedolion. Rhoddwyd y cyfle i un o'n haelodau i baratoi a thraddodi pregeth am y tro cyntaf fel ffordd o gynyddu nifer y rhai sy'n hyderus i gynnig eu hunain i'r gwaith pwysig yma.

Yn ystod y flwyddyn, dewisodd nifer o bobl ddod i'r capel i addoli ond roedd eraill, oherwydd rhesymau iechyd neu amgylchiadau, yn dewis ymuno ar Zoom naill ai drwy'r cyfrifiadur neu ar ffôn y tŷ. Dosbarthwyd deunydd myfyrio wythnosol i 80 o gartrefi drwy'r We a dosbarthwyd yr un deunydd i 20 o gartrefi nad ydynt yn defnyddio'r We. Ar ddechrau 2022 roedd 160 o aelodau ar lyfrau'r eglwys ond mae dylanwad yr eglwys yn ehangach na hynny, a'i drysau'n agored, gan gynnwys dros y We, i gyrraedd cynulleidfa estynedig.

## Plant, Pobl ifanc a'u teuluoedd

Er i ni lwyddo i gadw cysylltiad da gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn ystod cyfnod Covid, bu'n fwy anodd gwneud hynny wedi i fudiadau a sefydliadau eraill ailagor eu drysau a threfnu gweithgareddau ar foreuau Sul, yr adeg draddodiadol i gynnal oedfa ac Ysgol Sul. Mewn ymateb i hyn, ceisiwyd trefnu gweithgareddau iddynt ar adegau penodol yn y mis (ee oedfa pob oed ar yr ail Sul yn y mis) a threfnu gweithgareddau o fath wahanol (ee te bach a gemau ddiwedd pnawn Sul a gwibdaith i Gastell Penrhyn) yn ogystal ag ambell wers Ysgol Sul mwy traddodiadol.

## Addysg Oedolion

Mae dosbarth Ysgol Sul yr oedolion yn fforwm wythnosol werthfawr i astudio'r Beibl a dyfnhau dealltwriaeth o'n ffydd. Yn ystod 2022 roedd modd ini dderbyn arweiniad gwahanol aelodau o'r dosbarth oedd yn ychwanegu at gyfoeth y sesiwn gan fanteisio ar adnoddau gwerthfawr yn y Gymraeg gan Gyhoeddiadau'r Gair.

## Cyfathrebu a Gofal Bugeiliol

Yn ogystal â derbyn deunydd addoli wythnosol, roedd aelodau a chyfeillion yr eglwys yn derbyn llythyrau yn ystod y flwyddyn ar ebost neu trwy'r drws yn cynnwys newyddion am gydaelodau, hysbysiadau am ddigwyddiadau ac unrhyw ddiweddariad am drefniadau addoli yn y Capel.

Yn ogystal, dosbarthwyd cylchgrawn misol – Y Negesydd –yn ddigidol ac yn gopïau caled i'r sawl oedd yn dymuno hynny drwy'r flwyddyn. Roedd hyn yn gyfle i'r aelodau ddefnyddio eu doniau creadigol i gyfrannu erthyglau a lluniau i'r cylchgrawn ac yn ychwanegu at ein nod o gyfathrebu'n dda i gadw pawb gyda'i gilydd.

Mae cyfathrebu'n effeithiol gyda'n haelodau a'n cyfeillion yn greiddiol i waith yr eglwys, boed trwy ymweliadau neu trwy godi ffôn neu trwy rannu deunydd darllen, y cyfan dan arweiniad gweinidog yr eglwys gyda chymorth rhwydwaith o gynorthwywyr.

Mae'r gweinidog a nifer o'r aelodau yn cadw cysylltiad hefyd gyda chleifion yn yr ysbyty, yn eu cartrefi ac mewn cartrefi gofal. O dro i dro, yn dilyn profedigaeth, cynhaliwyd

gwasanaethau angladd ac ymweliadau bugeiliol gyda theuluoedd mewn galar a hyn yn rhan o ofal bugeiliol naturiol yr eglwys i'r galarus.

Yn ystod 2022, cynhaliwyd cyfarfodydd 'paned a sgwrs' misol dros Zoom yn festri'r eglwys, yn gyfle i aelodau a chyfeillion gynnal ei gilydd yn ogystal â thrafod materion y dydd. Er mor brysur yw bywydau pawb y dyddiau hyn, bu criw cyson, ffyddlon yn dod i'r weithgaredd yma oedd yn help i greu'r ymdeimlad o deulu.

## Gwaith cenhadol a chymdeithasol

Mewn blwyddyn arferol, mae grŵp o'r aelodau yn cynnal cyfarfodydd misol yn yr adeilad I hybu pryniant nwyddau Masnach Deg ac i gefnogi gwaith Traidcraft. Llwyddwyd i gynnal y ddarpariaeth hon yn 2022 er gwaetha'r ffaith bod Traidcraft yn mynd drwy ddyddiau dyrys yn dilyn dros ddeugain mlynedd o fasnachu llwyddiannus.

Llwyddodd yr Eglwys unwaith eto i gyfrannu at weithgareddau Cytûn Bangor yn cynnwys cydaddoli a chefnogi elusennau lleol. Llwyddwyd i ddal ati i gefnogi'r Banc Bwyd lleol a hynny mewn cyfnod pan mae mwy o angen nag erioed am y ddarpariaeth yma oherwydd y dirwasgiad yn dilyn y cyfnod clo.

Er gwaetha'r argyfwng costau byw, llwyddwyd i ddal ati i gyfrannu i roi cymorth dyngarol yn rhyngwladol. Cafwyd cefnogaeth dda i weithgareddau Cymorth Cristnogol a'r BMS (Baptist Missionary Society) yn ystod y flwyddyn gyda'r aelodau'n cael y fraint o gyfrannu'n hael yn ôl eu harfer at yr angen mewn gwledydd sy'n datblygu. Bu'r byd a'i anghenion yn ein gwasanaethau ac yn ein gweddïau'n gyson.

Daeth misoedd cyntaf 2022 â rhyfel erchyll i'r Wcrain ac ymhen rhai misoedd daeth nifer o ffoaduriaid oddi yno i wneud eu cartref yn ein plith yma ym Mangor. Cafwyd cyfraniadau o arian ac offer i'r tŷ gan aelodau Emaus a bu nifer ar rota canolfan 'galw i mewn' a gynhaliwyd yn Nhy'r Cyfeillion, Stryd y Deon dan nawdd y mudiad Croeso Menai. Datblygwyd noson gymdeithasu a chrefft ar nosweithiau Mercher yn Emaus oedd yn gyfle da i'r ymwelwyr o'r Wcrain i ddod i nabod ei gilydd yn well a gwneud gweithgareddau tawel a llesol i'w hiechyd meddwl gydag ambell i noson mwy bywiog o gemau a chwis. Roedd y cyfan dan arweiniad y mudiad Pobl i Bobl mewn cydweithrediad gydag aelodau Emaus.

Yn 2022 dechreuodd partneriaeth newydd rhyngom ag Eglwys Uniongred Blaenau Ffestiniog wrth iddynt drefnu i gynnal Offeren fisol yn adeilad Emaus. Yn wreiddiol, y bwriad oedd darparu ar gyfer ymwelwyr o'r Wcrain oedd yn lletya yn ymyl ond o dipyn i beth tyfodd yr Offeren yn gyfle cenhadol iddynt estyn allan i bobl o nifer o wahanol gefndiroedd ac ieithoedd yn ardal Bangor.

Braf oedd gweld Bugeiliaid y Stryd yn mynd allan ar eu teithiau bugeiliol ar benwythnosau yn ystod y tymor Coleg. Gyda rhai o'r gwirfoddolwyr yn ymddeol yn ystod y cyfnod clo, wynebodd y Bugeiliaid gyfnod o chwilio am wirfoddolwyr newydd a cheisio patrwm ychydig yn wahanol o weithredu wedi'r Pandemig.

Braint oedd gwasanaethu Crist yn ei Eglwys ac yn ei fyd yn ystod 2022 dan arweiniad ein Tad Nefol, yng nghwmni Crist ein ffrind a'n Gwaredwr ac yn nerth yr Ysbryd Glân. Braf oedd cael cwmni'n gilydd fel gweinidog, swyddogion, aelodau a chyfeillion ar y daith.

## ❖ Adolygiad Ariannol

Ein hincwm net am y flwyddyn (ar ôl didynnu symiau a godwyd ar ran elusennau allanol) oedd £47,039. Mae hyn yn llai na'r llynedd oherwydd gostyngiad o 7% yng nghyfraniadau'r aelodau.

Unwaith eto, rydym yn ddiolchgar iawn i Gymanfa Undeb Bedyddwyr Cymanfa Arfon a Chyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon am grantiau gwerth £12,460 a dderbyniwyd ganddynt tuag at gost cyflogi ein gweinidog. Gwariwyd 96% o'n hincwm net am y flwyddyn ar y weinidogaeth (81% y llynedd), yn cynnwys bron iawn £2000 a dalwyd fel ffioedd aelodaeth i'r ddau Undeb cenedlaethol a £3849 ar logi swyddfa bwrpasol i'r gweinidog ym Mhrifysgol Bangor.

Fe wnaethom barhau i fabwysiadu agwedd ofalus tuag at logi ein festri yn y cyfnod ar ôl COVID-19 ac yn lle hynny canolbwyntio ar wella'r amgylchedd i'r defnyddwyr. Yn hyn o beth gwariwyd £4338 ar warchodwyr rheiddiaduron pwrpasol fel gwelliant iechyd a diogelwch, yn enwedig i blant bach

Cyfanswm yr offrymau gan ein haelodau am y flwyddyn (ac eithrio unrhyw ychwanegiad a wnaethpwyd ar gyfer Rhodd Cymorth) oedd £28452, wedi'i ddadansoddi fel a ganlyn:

| **Nifer o aelodau yn cyfrannu:** | | **Cyfanswm:** |
|---|---|---|
| £750 neu fwy | 7 | £5860 |
| Rhwng £500 a £749 | 10 | £6120 |
| Rhwng £250 a £499 | 26 | £8775 |
| Rhwng £100 a £249 | 40 | £6547 |
| Rhwng £25 a £99 | 27 | £1150 |
| Dim | 50 | £0 |
| **Cyfanswm** | **160** | **£28452** |

Cynyddodd nifer yr aelodau na wnaeth unrhyw gyfraniad ariannol i gronfeydd yr Eglwys o 44 i 50 yn 2022, sef bron i draean yr aelodaeth. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen i'r Eglwys fynd i'r afael ag ef drwy ddyfeisio polisi cyhoeddedig sy'n cael ei weld yn deg a hefyd sy'n cydnabod y rhesymau niferus pam mae aelod yn dewis peidio â chyfrannu.

Ar nodyn mwy cadarnhaol mae ein haelodau wedi ymateb yn arbennig o dda a hael i apeliadau argyfyngus byd a lleol dros y flwyddyn, a chodwyd cyfanswm o £5698 rhwng Cymorth Cristnogol, Apêl Wcráin, BMS a Banc Bwyd Bangor. Er mwyn gwahanu'r arian a gasglwyd ar gyfer apeliadau o'r fath rydym bellach wedi agor cyfrif ar wahân at y diben hwn yn 2023.

Trosglwyddwyd buddsoddiadau gwerth £503,656 i Emaus SCE yn nhrydydd a phedwerydd chwarter 2022. Roedd y rhain yn cynrychioli asedau a ddelid gynt gan Ymddiriedolwyr Eglwysi Pendref a Phenuel. Roedd y trosglwyddiadau yn rhy hwyr yn y flwyddyn i gynhyrchu unrhyw incwm ond rydym yn rhagweld y byddant yn cynhyrchu o leiaf tua £12,000 y flwyddyn I'r Eglwys o 2023 ymlaen.

Ar ôl tynnu gwariant cyfalaf ac eithriadol mae'r cyfrifon yn dangos colled o £15726 am y flwyddyn. Gyda'r incwm y bydd ein buddsoddiadau ychwanegol yn ei gynhyrchu, rydym yn hyderus na fydd colled mor fawr â hyn yn digwydd yn y dyfodol. I'r perwyl hwn mae'r Ymddiriedolwyr wedi cynhyrchu a chytuno'r "Polisi Arian Wrth Gefn" canlynol:

> "Mae Ymddiriedolwyr Emaus SCE yn ystyried yn ddoeth, yn amodol ar adolygiad blynyddol i:
>
> • ddefnyddio'r incwm o'r buddsoddiadau i gryfhau incwm yr Eglwys a lleihau neu ddileu'r bwlch rhwng ein hincwm a'n gwariant.
>
> • defnyddio'r cyfalaf a fuddsoddwyd yn ein cronfeydd anghyfyngedig yn unig, cyn belled ag y bo modd, ar brosiectau penodol sy'n arwain at gyfoethogi nodau ac amcanion ein heglwys a'i Chyfansoddiad.
>
> • rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio'r cyfalaf i gyflwyno mesurau ataliol ac amddiffynnol i ddileu'r holl beryglon iechyd a diogelwch a nodir gan waith parhaus is-bwyllgor Rheoli Risg yr Ymddiriedolaeth."

Yn olaf, mae'r ymddiriedolwyr yn hyderus wrth nodi nad oes gennym unrhyw ansicrwydd o gwbl y bydd Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE yn parhau fel mudiad Cristnogol gweithredol ym Mangor yn y dyfodol.

## ❖ Strwythur, Llywodraeth a Rheolaeth

Mae dogfen lywodraethol yr Eglwys yn Gyfansoddiad Sefydliad Corfforedig Elusennol gydag aelodau â phleidlais heblaw ei ymddiriedolwyr. Ysgrifennwyd y ddogfen hon yn dilyn canllawiau swyddogol y Comisiwn Elusennau.

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr SCE yn Eglwys Emaus ar 13 Tachwedd 2022. Mynychodd 42 aelod y cyfarfod naill ai yn adeilad Emaus neu dros ZOOM. Cymeradwyodd y rhai a oedd yn bresennol adroddiad blynyddol yr SCE am y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2021. Yn unol â thelerau ein Cyfansoddiad, ymddeolodd tri ymddiriedolwr presennol yn ffurfiol yn y cyfarfod a chynnig eu hunain i'w hailethol am gyfnod pellach. Yn dilyn trafodaeth gan yr aelodau, cytunwyd yn unfrydol i'w hail-ethol am flwyddyn arall.

Dewisir ymddiriedolwyr yn unol ag Adran 13 o'r Cyfansoddiad. Penodwyd pum ymddiriedolwr newydd ym mis Tachwedd 2022 gan ddefnyddio pwerau'r ymddiriedolwyr presennol o dan Adran 13 Chymal [5] o'r Cyfansoddiad. Roedd hyn yn dilyn ymgyrch recriwtio ymhlith yr aelodau i benodi ymddiriedolwyr newydd i lunio polisi risg a datblygu ar gyfer y SCE.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar faterion seciwlar sydd o bryder cyffredinol a phwysig i'r Eglwys gan gynnwys sut mae cronfeydd yr Eglwys yn cael eu rheoli a'u defnyddio. Mae saith o'r ymddiriedolwyr naill ai'n ddiaconiaid neu'n swyddogion yr Eglwys, sy'n sicrhau bod perthynas cydlynol rhwng y ddau gorff. Maent yn parhau i weithio'n agos gydag ymddiriedolwyr cyn-Eglwys Pendref a chyn-Eglwys Penuel i drosglwyddo

asedau'r ddau gorff i'r SCE. Ar ddiwedd y flwyddyn yr unig asedau ar ôl oedd adeilad presennol yr Eglwys a'r cyfrif banc yn dal elw gwerthiant hen Eglwys Pendref. Mae'r holl asedau eraill bellach yng ngofal yr SCE.

## ❖ Manylion cyfeirnodi a gweinyddol

| | |
|---|---|
| Enw'r Elusen | Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE |
| Rhif elusen gofrestredig: | 1188238 |
| Prif gyfeiriad yr Elusen | Eglwys Gydenwadol Emaus<br>Lôn Cariadon<br>Bangor<br>Gwynedd LL57 2TE |
| Cyfeiriad gohebiaeth yr Elusen | 11 Gorseddfa<br>Criccieth<br>Gwynedd LL52 0DW |

| **Enw'r ymddiriedolwr** | **Swydd** | **Dyddiadau'n gweithredu (os nad am flwyddyn gyfan)** |
|---|---|---|
| Gareth Ffowc Roberts* | Ysgrifennydd; aelod is-bwyllgor cyllid | - |
| Gwyn Eurig Davies* | Cyfreithiwr; aelod is-bwyllgor cyllid | - |
| Dilwen Lloyd Jones* | Ysgrifennydd yr Aelodaeth; aelod is-bwyllgor cyllid | - |
| David Llewelyn Jones* | Cadeirydd; trysorydd; aelod is-bwyllgor cyllid | - |
| Parch Casi Mackenzie Jones* | Gweinidog yr Eglwys; aelod is-bwyllgor Risg a Datblygu | 1af Tachwedd 2022 |
| Dylan Owen | Aelod is-bwyllgor Risg a Datblygu | 1af Tachwedd 2022 |
| Meriel Parry | Cadeirydd yr is-bwyllgor Risg a Datblygu | 1af Tachwedd 2022 |
| Siân Arwel Davies* | Aelod is-bwyllgor Risg a Datblygu | 1af Tachwedd 2022 |
| Alison Carden* | Aelod is-bwyllgor Risg a Datblygu | 1af Tachwedd 2022 |

**hefyd yn ddiaconiaid neu swyddogion yr eglwys*

**Ymddiriedolwyr corfforaethol** – Dim
**Enw'r ymddiriedolwyr sy'n dal teitl eiddo sy'n eiddo i'r elusen** - Dim
**Cronfeydd a ddelir fel ymddiriedolwyr ceidwad ar ran eraill** - Dim
**Eithriadau rhag datgelu** - Dim

## ❖ Datganiadau

**Mae'r ymddiriedolwyr yn datgan eu bod wedi cymeradwyo adroddiad yr ymddiriedolwyr uchod. Llofnodwyd ar ran ymddiriedolwyr yr elusen:**

| | |
|---|---|
| **Llofnod** | |
| **Enw llawn** | David Llewelyn Jones |
| **Swydd** | Ymddiriedolwr a thrysorydd |
| **Dyddiad** | 02 Hydref 2023 |

# Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE        Rhif : 1188238

## Datganiadau Ariannol am y flwyddyn i 31 Rhagfyr 2022

## Cyfrif Incwm a Gwariant

| | | Cronfeydd anghyfyngedig | Cronfeydd dynodedig | Cronfeydd cyfyngedig | | Cyfanswm | | Y Llynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | | | | |
| Offrymau | £ | 28,452 | - | - | £ | **28,452** | £ | *30,485* |
| Casgliad rhydd | £ | 105 | - | - | £ | **105** | £ | *7* |
| Llogi'r Adeilad | £ | 120 | - | - | £ | **120** | £ | *25* |
| Rhoddion arbennig | £ | 200 | - | - | £ | **200** | £ | *1,790* |
| Cyfundeb Arfon (Grant) | £ | 5,500 | - | - | £ | **5,500** | £ | *5,500* |
| Cymanfa Arfon (Grant) | £ | 6,960 | - | - | £ | **6,960** | £ | *6,630* |
| Rhodd Cymorth | £ | 5,651 | - | - | £ | **5,651** | £ | *5,473* |
| Llog | £ | 52 | - | - | £ | **52** | £ | *494* |
| Apeliadau - **nodyn (d)** | £ | 5,698 | - | - | £ | **5,698** | £ | *5,486* |
| ***Is-gyfanswm*** | £ | **52,737** | - | - | £ | **52,737** | £ | *55,890* |
| ***Cyfanswm yr Incwm*** | £ | **52,737** | £ - | £ - | £ | **52,737** | £ | *55,890* |
| **Gwariant** | | | | | | | | |
| Costau'r weinidogaeth - **nodyn (a)** | £ | 45,033 | - | - | £ | **45,033** | £ | *40,991* |
| Glanhau | £ | 1,185 | - | - | £ | **1,185** | £ | *1,328* |
| Cynnal ac atgyweirio | £ | 472 | - | - | £ | **472** | £ | *1,104* |
| Gwres a Goleu | £ | 2,278 | - | - | £ | **2,278** | £ | *1,477* |
| Yswiriant | £ | 2,409 | - | - | £ | **2,409** | £ | *2,557* |
| Garddio a chynnal tir | £ | 1,230 | - | - | £ | **1,230** | £ | *2,255* |
| Teleffon/gwasanaeth rhyngrwyd/Zoom | £ | 1,888 | - | - | £ | **1,888** | £ | *1,732* |
| Gwariant swyddfa a'r gegin | £ | 71 | - | - | £ | **71** | £ | *325* |
| Mudiad y Chwiorydd | £ | 20 | - | - | £ | **20** | £ | *20* |
| Ffi'r Archwiliwr | £ | 2,520 | - | - | £ | **2,520** | £ | *2,400* |
| Trethi Dwr | £ | 253 | - | - | £ | **253** | £ | *158* |
| Organ | £ | 515 | - | - | £ | **515** | £ | *-* |
| Llungopiwr | £ | 1,461 | - | - | £ | **1,461** | £ | *1,405* |
| Amrywiol | £ | 328 | - | - | £ | **328** | £ | *353* |
| **Apeliadau** | | | | | | | | |
| Apêl Timothy Richards | £ | - | - | - | £ | **-** | £ | *800* |
| Ffoaduriaid | £ | 675 | - | - | £ | **675** | £ | *-* |
| Cymorth Cristnogol | £ | - | - | - | £ | **-** | £ | *-* |
| Banc Bwyd | £ | 3,180 | - | - | £ | **3,180** | £ | *1,875* |
| BMS | £ | 2,276 | - | - | £ | **2,276** | £ | *1,220* |
| Apêl Wcráin | £ | 2,670 | - | - | £ | **2,670** | £ | *942* |
| ***Is-gyfanswm*** | £ | **68,464** | - | - | £ | **68,464** | £ | *60,942* |
| **Prynu Asedau a Gwariant eithriadol** | | | | | | | | |
| Gweler nodyn (b) | **£** | **4,425** | - | - | £ | **4,425** | £ | *196* |
| Gwariant eithriadol (c) | **£** | **2,586** | - | - | £ | **2,586** | £ | *540* |
| ***Is-gyfanswm*** | £ | **7,011** | - | - | £ | **7,011** | £ | *736* |
| ***Cyfanswm y Gwariant*** | £ | **75,475** | - | - | £ | **75,475** | £ | *61,678* |
| ***Net o dderbyniadau/(taliadau)*** | -£ | **22,737** | 0 | 0 | -£ | **22,737** | -£ | *5,788* |
| ***Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd*** | | - | - | - | | **-** | | *-* |
| ***cronfeydd wedi ei trosglwyddo gan Pendref a Penuel*** | £ | **373,778** | £ **129,878** | - | | **503,656** | | |
| ***Cronfeydd ariannol 01/01/2022*** | £ | **37,270** | - | - | £ | **37,270** | £ | *43,059* |
| ***Arian ar law ar ddiwedd y flwyddyn*** | £ | **388,311** | **129,878** | - | £ | **518,189** | £ | *37,271* |

| **Nodyn (a)** | | |
|---|---|---|
| Costau'r Weinidogaeth | £ | 27,644 |
| Cynllun Pensiwn y Weinidogaeth | £ | 2,759 |
| Yswiriant Gwladol a Threth Incwm | £ | 7,294 |
| Cytun Bangor | £ | 100 |
| Llogi Swyddfa | £ | 3,849 |
| Yr Ysgol Sul | £ | 386 |
| Pregethwyr | £ | 1,085 |
| Undeb/Cymanfa Arfon | £ | 1,422 |
| Undeb/Cyfundeb Yr Annibynwyr | £ | 495 |
| | **£** | **45,033** |

| **Nodyn (b)** | | |
|---|---|---|
| Microdon | £ | 87 |
| Gwarchodwyr rheiddiaduron yn y festri | £ | 4,338 |
| | **£** | **4,425** |

| **Nodyn (c)** | | |
|---|---|---|
| Noddi Hannah Smethurst (myfyriwr) | £ | 2,106 |
| Cwmni Dafydd Hardy (prisio'r adeilad) | £ | 480 |
| | **£** | **2,586** |

# Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE        Rhif : 1188238

| Nodyn (d) | | |
|---|---|---|
| Banc Bwyd | £ | 2,045 |
| Apêl Wcráin | £ | 1,668 |
| BMS | £ | 1,153 |
| Cymorth Cristnogol | £ | 832 |
| | **£** | **5,698** |

## Datganiad o Asedau a Dyledion ar 31 Rhagfyr 2022

| Categoriau | Manylion | Cronfeydd anghyfyngedig | Cronfeydd dynodedig | Cronfeydd cyfyngedig |
|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Arian Parod** | Cyfrif Banc - Rhodd Cymanfa Arfon (Gwerthiant Bethel) | £ 8,024 | £ - | £ - |
| | Cyfrifon Banc (eraill) | £ 6,509 | £ - | £ - |
| | M&G Charifund (ex Ymddiriedolwyr Penuel) | £ 15,311 | £ - | £ - |
| | Quilter (ex Ymddiriedolwyr Penuel) | £ 69,383 | £ - | £ - |
| | HSBC (ex Ymddiriedolwyr Pendref) | £ 289,084 | £ 129,878 | £ - |
| | ***Cyfanswm cronfeydd arian parod*** | **£ 388,311** | **£ 129,878** | **£ -** |

| Asedau Ariannol Eraill | Manylion | Cronfeydd anghyfyngedig | Cronfeydd cyfyngedig |
|---|---|---|---|
| | Gordaliad i'r BMS | £ 825 | £ - |
| | Rhodd Cymorth | £ 5,593 | £ - |

| Asedau a gedwir at ddefnydd yr elusen yn unig | Manylion | | Cost | Gwerth 31/12/2022 |
|---|---|---|---|---|
| | Gliniadur (prynwyd yn 2020) | Cronfa anghyfyngedig | £ 1,371 | £ 500 |
| | Gasebo (prynwyd yn 2021) | Cronfa anghyfyngedig | £ 196 | £ 30 |
| | Microdon | Cronfa anghyfyngedig | £ 87 | £ 80 |
| | Cloriau i'r rheiddiaduron yn y festri | Cronfa anghyfyngedig | £ 4,338 | £ 4,000 |

| Dyledion | Manylion | | Cost |
|---|---|---|---|
| | Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol | Cronfa anghyfyngedig | £ 2,123 |
| | Banc Bwyd | Cronfa anghyfyngedig | £ 330 |
| | Cymorth Cristnogol | Cronfa anghyfyngedig | £ 832 |
| | Ecclesiastical Insurance | Cronfa anghyfyngedig | £ 1,671 |

| Arwyddyd ar ran yr ymddiriedolwyr | Llofnod | Enw | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| **Cadeirydd a Thrysorydd** | [signature] | **David Llewelyn Jones** | **2 Hyd 2023** |

# Adroddiad archwiliwr annibynnol ar y cyfrifon

**Adran A** **Adroddiad yr archwiliwr annibynnol**

| | |
|---|---|
| **Adrodd i ymddiriedolwyr** | Enw'r Elusen<br>Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn yn diweddu** | 31ain Rhagfyr 2022 | **Rhif Elusen** | 1188238 |

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr elusen uchod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 / 12 / 2022.

**Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad**

Fel ymddiriedolwyr elusennau'r Ymddiriedolaeth, chi sy'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gynhaliwyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais yr holl Gyfarwyddiadau perthnasol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad arholwr annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad annibynnol sy'n rhoi achos i mi gredu mewn unrhyw ystyriaeth faterol:

- ni chedwir cofnodion cyfrifyddu yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf neu
- nid yw'r cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys yn ymwneud â ffurf a chynnwys cyfrifon a amlinellir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol.

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn cysylltiad â'r archwiliad y dylid tynnu sylw ato er mwyn gallu cael dealltwriaeth gywir o'r cyfrifon.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Arwyddwyd:** | SMW | **Dyddiad:** | 27/09/2023 |
| **Enw:** | Sian M. Williams | | |
| **Cymhwyster(au) neu gorff proffesiynol perthnasol (os oes rhai):** | ICAEW | | |
| **Cyfeiriad:** | 36, Stryd Fawr | | |
| | Pwllhei | | |
| | Gwynedd LL53 5RT | | |

**EGLWYS GYDENWADOL EMAUS BANGOR**

England & Wales - Charity number 1188238

# Accounts

# Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr o 1 Ionawr 2021 hyd at 31 Rhagfyr 2021

## Enw’r Elusen:  Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE

## Rhif yr Elusen: 1188238

## ❖ Amcanion a Gweithgareddau

Prif amcan yr Eglwys yw hyrwyddo’r ffydd Gristnogol yn ôl egwyddorion enwadau’r Annibynwyr a’r Bedyddwyr yng Nghymru fel aelod o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gall yr Eglwys hefyd hybu addysg a chyflawni amcanion elusennol eraill yn y Deyrnas Unedig a/neu mewn rhannau eraill o’r byd.

Mae’r Eglwys wedi ei hymrwymo i gyrraedd cynulleidfa eang o fewn dinas Bangor a thu hwnt gan agor ei drysau i gynifer â phosibl i addoli yn yr Eglwys ac i fanteisio ar bob cyfle i ymuno mewn gweithgareddau addoli a chymdeithasol trwy gyfrwng y we a dulliau eraill. Mae’n rhoi ffydd ar waith mewn gweddi a gweithred, mewn cân a sacrament.

Wrth gynllunio ein gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn rhown bwyslais ar gynorthwyo pawb i fyw eu ffydd o ddydd i ddydd fel rhan o deulu’r Eglwys.  Gwnawn hynny trwy:

> Addoli a gweddi; astudio’r Gair a datblygu ein dealltwriaeth o’r ffydd Gristnogol.
> Darparu gofal bugeiliol.
> Cynorthwyo plant a phobl ifanc i dyfu yn y ffydd.
> Hybu gwaith cenhadol.

I hyrwyddo’r gwaith hwn mae’n bwysig i ni gynnal yr adeilad a datblygu ein dulliau cyfrifiadurol, gan fanteisio ar y cyngor a’r cymorth a dderbynnir gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Undeb Bedyddwyr Cymru.

Wrth gynllunio a datblygu rhaglen waith yr Eglwys, rydym yn ceisio dilyn anogaethau ein ffydd a gwrando ar leisiau’n  haelodau ac ymateb i bobl anghenus yn ein cymdeithas a’n byd gan wneud hynny yn ymwybodol o ganllawiau arweiniad y Comisiwn i wneud gyda budd i’r cyhoedd.

## ❖ Cyflawniadau a Pherfformiad

### Cyflawniad yn 2021

Yn sgil Covid-19 bu 2021 yn flwyddyn heriol oherwydd yr angen i gadw cydbwysedd rhwng parhau gyda’r hyn roeddem yn ei ddarparu a gwneud ein gorau i sicrhau diogelwch ein haelodau drwy ddilyn canllawiau Cytûn a Llywodraeth Cymru, canllawiau oedd yn newid yn gyson i gyfarfod â’r newid yn yr amgylchiadau.  Gan mai dewis gwirfoddol pob unigolyn ydy

mynychu addoliad, roeddem yn darparu ar gyfer ystod eang o bobl oedd yn fwy neu yn llai parod i ddod i weithgareddau wyneb yn wyneb. Roedd angen bod yn fentrus, yn hyblyg ac yn ddoeth i ymateb i gyfnod ddigynsail fel hon.

## Addoliad a Gweddi

Yn ystod y flwyddyn, roedd modd i ni ddarparu oedfaon bob bore Sul ar nifer o themâu yn perthyn i'r ffydd Gristnogol. Roedd y gwasanaethau'n cynnwys y cyfle i addoli, i ddysgu mwy am ein ffydd ac i weddïo am faterion personol, lleol a rhyngwladol. Manteisiwyd ar gyfle yn fisol i groesawu gweinidog gwadd i arwain ein gwasanaethau a'r gweddill yn cael eu harwain gan y gweinidog a nifer o blant, pobl ifanc ac oedolion.

Yn ystod y flwyddyn, dewisodd nifer o bobl ddod i'r capel i addoli dan drefn y canllawiau oedd mewn grym yn y cyfnod i atal lledaeniad Covid-19 ond roedd eraill, oherwydd rhesymau iechyd neu amgylchiadau Covid, yn dewis ymuno ar Zoom naill ai drwy'r cyfrifiadur neu ar ffôn y tŷ. Dosbarthwyd deunydd myfyrio wythnosol i 80 o gartrefi drwy'r we a dosbarthwyd yr un deunydd i dros 20 o gartrefi nad ydynt yn defnyddio'r we. Ar ddechrau 2021 roedd 159 o aelodau ar lyfrau'r eglwys ond mae dylanwad yr eglwys yn ehangach na hynny, a'i drysau'n agored, gan gynnwys dros y we, i gyrraedd cynulleidfa estynedig.

Llwyddwyd i ddal ati gydag Ysgol Sul y plant a'r bobl ifanc, gyda chefnogaeth rhieni a theuluoedd yn ogystal â gwirfoddolwyr o blith yr aelodau. Yn ystod 2021 cafwyd amrywiaeth o gyfarfodydd yn cynnwys Ysgol Sul Zoom, cyfarfod mewn gazebo y tu allan i'r Capel i ddysgu mwy am ein cyfrifoldeb am y blaned, a gwasanaeth awyr agored ym Mharc Hamdden Gelli Gyffwrdd gyda phicnic yn dilyn a chyfle wedyn i fwynhau gweithgareddau awyr agored.

Mae dosbarth Ysgol Sul yr oedolion yn fforwm wythnosol werthfawr i astudio'r Beibl a dyfnhau dealltwriaeth o'n ffydd. Hawdd iawn oedd trosglwyddo'r cyfarfodydd yma i gyfarfodydd ar Zoom am gyfnod pan oedd angen gan sicrhau y gallem ddal ati. Roedd modd i ni dderbyn arweiniad gwahanol aelodau o'r dosbarth oedd yn ychwanegu at gyfoeth y sesiwn.

## Cyfathrebu a Gofal Bugeiliol

Yn ogystal â derbyn deunydd addoli wythnosol, roedd aelodau a chyfeillion yr eglwys yn derbyn llythyrau yn ystod y flwyddyn ar ebost neu trwy'r drws yn cynnwys newyddion am gydaelodau, hysbysiadau am ddigwyddiadau ac unrhyw ddiweddariad am ganllawiau addoli yn y Capel.

Yn ogystal, dosbarthwyd cylchgrawn misol – Y Negesydd –yn ddigidol ac yn gopïau caled i'r sawl oedd yn dymuno hynny drwy'r flwyddyn. Roedd hyn yn gyfle i'r aelodau ddefnyddio eu doniau creadigol i gyfrannu erthyglau a lluniau i'r cylchgrawn ac yn ychwanegu at ein nod o gyfathrebu'n dda i gadw pawb gyda'i gilydd.

Mae cyfathrebu'n effeithiol gyda'n haelodau a'n cyfeillion yn greiddiol i waith yr eglwys, boed trwy ymweliadau neu trwy godi ffôn neu trwy rannu deunydd darllen, y cyfan dan arweiniad gweinidog yr eglwys gyda chymorth rhwydwaith o gynorthwywyr.

Mae'r gweinidog a nifer o'r aelodau yn cadw cysylltiad hefyd gyda chleifion yn yr ysbyty, yn eu cartrefi ac mewn cartrefi gofal er na fu modd gwneud llawer o ymweld wyneb yn wyneb oherwydd y perygl o ledu Covid 19 ymhlith y rhai mwyaf bregus eu hiechyd.  O dro i dro, yn dilyn profedigaeth, cynhaliwyd gwasanaethau angladd ac ymweliadau bugeiliol gyda theuluoedd mewn galar a hyn yn rhan o ofal bugeiliol naturiol yr eglwys i'r galarus.

Ers dechrau'r pandemig, mae cynnig cyfleoedd i gymdeithasu wedi bod yn anodd oherwydd yr angen am hunan-ynysu. Yn ystod 2021, cynhaliwyd cyfarfodydd 'paned a sgwrs' misol dros Zoom fel dilyniant i'r cyfarfodydd yn festri'r eglwys, yn gyfle i aelodau a chyfeillion gynnal ei gilydd yn ogystal â thrafod materion y dydd.

### Gwaith cenhadol a chymdeithasol

Mewn blwyddyn arferol, mae grŵp o'r aelodau yn cynnal cyfarfodydd misol yn yr adeilad i hybu pryniant nwyddau Masnach Deg ac i gefnogi gwaith Traidcraft. Llwyddwyd i gynnal y ddarpariaeth hon yn 2021 drwy gydol y cyfnodau clo wrth addasu'r ffordd o dderbyn archebion a chludo'r nwyddau i gartefi unigol. Dim ond o fis Medi ymlaen roedd modd dechrau gwerthu nwyddau Masnach Deg yn yr adeilad unwaith eto gan ddilyn y canllawiau priodol. Llwyddodd yr Eglwys unwaith eto eleni i gyfrannu at weithgareddau Cytûn Bangor yn cynnwys cydaddoli a chefnogi elusennau lleol. Llwyddwyd i ddal ati i gefnogi'r Banc Bwyd Bangor a hynny mewn cyfnod pan mae mwy o angen nag erioed am y ddarpariaeth yma oherwydd y dirwasgiad yn dilyn y cyfnod clo a dal ati i gyfrannu i roi cymorth dyngarol yn rhyngwladol.

## ❖ Adolygiad Ariannol

Ein hincwm net am y flwyddyn (ar ôl didynnu symiau a godwyd ar ran elusennau allanol) oedd £50,404.  Mae hyn yn dangos cynnydd dros y cyfnod blaenorol ond dylid nodi bod ein cyfrifon cyntaf fel elusen gofrestredig yn cwmpasu 10 mis yn unig. Fodd bynnag, yn hanesyddol patrwm arferol misoedd cyntaf ein blwyddyn arferol yw cynhyrchu incwm sy'n is na'r swm a gynhyrchir yn y misoedd olaf, yn arbennig ym mis Rhagfyr.

Roedd cyfyngiadau COVID yn parhau dros y rhan fwyaf o'r flwyddyn, felly nid oedd y festri ar gael i gynhyrchu incwm trwy ei logi i fudiadau allanol (ar wahân i swm bach o £25). Cyn COVID-19, roeddwn yn derbyn oddeutu £1700 y flwyddyn o'r ffynhonnell incwm hon. Er nad yw cyfyngiadau COVID yn eu lle erbyn hyn mae'r firws yn gwrthod mynd i ffwrdd ac felly, am resymau Iechyd a Diogelwch, rydym yn cymryd agwedd ofalus wrth ailgychwyn y ffynhonnell incwm hon.

Unwaith eto, rydym yn ddiolchgar iawn i Gymanfa Undeb Bedyddwyr Cymru Arfon a Chyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon am grantiau gwerth £12,180 a dderbyniwyd ganddynt tuag at gost cyflogi ein gweinidog. Gwariwyd 81% o'n hincwm net am y flwyddyn

ar y weinidogaeth, yn cynnwys dros £2000 a dalwyd fel ffioedd aelodaeth i'r ddau Undeb cenedlaethol.

Cyfanswm yr offrymau gan ein haelodau am y flwyddyn (ac eithrio unrhyw ychwanegiad a wnaethpwyd ar gyfer Rhodd Cymorth) oedd £30485, wedi'i ddadansoddi fel a ganlyn:

| **Nifer o aelodau yn cyfrannu:** | | **Cyfanswm:** |
|---|---|---|
| £750 neu fwy | 5 | £4319 |
| Rhwng £500 a £749 | 17 | £9978 |
| Rhwng £250 a £499 | 24 | £7630 |
| Rhwng £100 a £249 | 47 | £7439 |
| Rhwng £25 a £99 | 22 | £1119 |
| Dim | 44 | £0 |
| **Cyfanswm** | **159** | **£30485** |

Daeth incwm o fuddsoddiadau i ben wrth i ni drosglwyddo cyfrifon banc Emaus o HSBC i NatWest yn ystod y flwyddyn. Nid oedd gan ymddiriedolwyr hen Eglwysi Penuel a Phendref wedyn fodd i drosglwyddo unrhyw incwm a gynhyrchwyd o'u cronfeydd eu hunain i Emaus. Felly roedd unrhyw incwm a godwyd wedi hynny yn cael ei ailfuddsoddi ganddynt yn eu cronfeydd eu hunain.

Gwelwyd gostyngiad pellach o £5788 yn ein cronfeydd wrth gefn dros y flwyddyn (gan adlewyrchu'r golled a wnaethom) ac maent bellach yn gyfanswm o £37270 (i gyd yn gronfeydd anghyfyngedig). Bydd ein polisi cronfeydd wrth gefn presennol yn parhau dros y tymor byr o leiaf, a byddwn yn defnyddio'r cronfeydd hyn fel byffer yn erbyn unrhyw golledion pellach neu wariant eithriadol yn y dyfodol.

Mae datblygiad diweddar a phwysig sy'n werth ei gofnodi yn yr adroddiad hwn, gan y bydd yn cael effaith sylweddol a chadarnhaol ar ein gallu i symud ymlaen i gyflawni undod cyflawn, ac i roi sicrwydd ariannol i ni ar gyfer y dyfodol. Mae ymddiriedolwyr Pendref a Phenuel wedi cytuno yn ffurfiol i drosglwyddo eu cronfeydd anghyfyngedig a chyfyngedig, sef cyfanswm o dros £500K, i Ymddiriedolaeth Emaus. Mae'r Comisiwn Elusennau wedi cymeradwyo'r trosglwyddiadau ac mae'n fodlon nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau yn codi. Unwaith y bydd y trosglwyddiadau wedi'u cyflawni, byddwn yn ceisio newid y buddsoddiadau hyn o gronfeydd cronni i gronfeydd cynhyrchu incwm i hybu ein hincwm. Bryd hynny byddwn yn adolygu ein polisi cronfeydd wrth gefn i adlewyrchu'r cynnydd sylweddol yn yr arian sydd ar gael i Emaus.

I gloi, mae'r ymddiriedolwyr yn hyderus wrth nodi nad oes gennym unrhyw ansicrwydd o gwbl y bydd Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE yn parhau fel mudiad Cristnogol gweithredol yn y dyfodol.

## ❖ Strwythur, Llywodraeth a Rheolaeth

Mae dogfen lywodraethol yr Eglwys yn Gyfansoddiad Sefydliad Corfforedig Elusennol gydag aelodau â phleidlais heblaw ei ymddiriedolwyr. Ysgrifennwyd y ddogfen hon yn dilyn canllawiau swyddogol y Comisiwn Elusennau.

Dewisir ymddiriedolwyr yn unol ag Adran 13 o'r Cyfansoddiad. Penododd yr ymddiriedolwyr Ysgrifennydd Aelodaeth yr Eglwys yn ymddiriedolwr ym mis Chwefror 2021 gan ddefnyddio ein pwerau o dan Adran 13 Chymal [5] o'n Cyfansoddiad.

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf yr SCE yn Eglwys Emaus ar 12 Rhagfyr 2021, a oedd wedi'i ohirio tan hynny oherwydd cyfyngiadau COVID. Mynychodd 44 aelod y cyfarfod naill ai yn adeilad Emaus neu dros ZOOM. Cymeradwyodd y rhai a oedd yn bresennol adroddiad blynyddol cyntaf yr SCE am y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2020. Yn unol â thelerau ein Cyfansoddiad, ymddeolodd y pedwar ymddiriedolwr presennol yn ffurfiol yn y cyfarfod a chynnig eu hunain i'w hailethol am gyfnod pellach. Yn dilyn trafodaeth gan yr aelodau, cytunwyd yn unfrydol i'w hail-ethol am flwyddyn arall.

Rydym wedi cychwyn y broses o benodi ymddiriedolwyr ychwanegol i'r Bwrdd gyda'r dasg benodol o ffurfio ac arwain gweithgor o fewn yr aelodaeth i lunio Polisi Risg manwl i'r Eglwys. Ymgymerwyd â'r dasg hon drwy ymgyrch recriwtio o blith yr aelodau i chwilio am bobl â'r sgiliau a'r ymrwymiad angenrheidiol i wneud a chwblhau'r gwaith pwysig hwn.

Mae ymddiriedolwyr presennol yr SCE hefyd i gyd yn aelodau o fwrdd diaconiaid a swyddogion yr Eglwys. Maent hefyd yn gweithio'n agos gyda'r ddau gorff o ymddiriedolwyr sydd, ar hyn o bryd, yn gyfrifol am gronfeydd cyfyngedig yr Eglwys (ymddiriedolwyr cyn-Eglwys Pendref a chyn-Eglwys Penuel). Felly, ar hyn o bryd, mae gennym bedwar corff gwahanol sy'n rheoli cenhadaeth neu weledigaeth yr Eglwys ar gyfer y dyfodol. Er bod y model hwn wedi ein gwasanaethu'n dda yn ystod y cyfnod o undod efallai nad dyma'r model delfrydol i'w ddilyn yn y dyfodol. Rhagwelir y gallai'r grŵp polisi risg ddymuno ei adolygu fel rhan o'i brosiect.

## ❖ Manylion cyfeirnodi a gweinyddol

| | |
|---|---|
| Enw'r Elusen | Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE |
| Rhif elusen gofrestredig: | 1188238 |
| Prif gyfeiriad yr Elusen | Eglwys Gydenwadol Emaus<br>Lôn Cariadon<br>Bangor<br>Gwynedd LL57 2TE |
| Cyfeiriad gohebiaeth yr Elusen | 11 Gorseddfa<br>Criccieth<br>Gwynedd LL52 0DW |

| Enw’r ymddiriedolwr | Swydd | Dyddiadau'n gweithredu (os nad am flwyddyn gyfan) | Enw'r person (neu'r corff) sydd â hawl i benodi ymddiriedolwr (os oes un) |
|---|---|---|---|
| Gareth Ffowc Roberts | Ysgrifennydd | - | - |
| Gwyn Eurig Davies | Cyfreithiwr | - | - |
| Dilwen Lloyd Jones | Ysgrifennydd yr Aelodaeth | 19 Chwefror 2021 | - |
| David Llewelyn Jones | Trysorydd | - | - |

**Ymddiriedolwyr corfforaethol** – Dim

**Enw'r ymddiriedolwyr sy'n dal teitl eiddo sy'n eiddo i'r elusen** - Dim

**Cronfeydd a ddelir fel ymddiriedolwyr ceidwad ar ran eraill** - Dim

**Eithriadau rhag datgelu** - Dim

## ❖ Datganiadau

**Mae’r ymddiriedolwyr yn datgan eu bod wedi cymeradwyo adroddiad yr ymddiriedolwyr uchod.**
**Llofnodwyd ar ran ymddiriedolwyr yr elusen:**

| | |
|---|---|
| **Llofnod** | |
| **Enw llawn** | David Llewelyn Jones |
| **Swydd** | Ymddiriedolwr a thrysorydd |
| **Dyddiad** | 26 Medi 2022 |

# Adroddiad archwiliwr annibynnol ar y cyfrifon

| Adran A | Adroddiad yr archwiliwr annibynnol |
|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adrodd i ymddiriedolwyr** | Enw'r Elusen<br>Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE | | |
| **Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn yn diweddu** | 31ain Rhagfyr 2021 | **Rhif Elusen** | 1188238 |

Rwy'n adrodd i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr elusen uchod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 / 12 / 2021.

**Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad**

Fel ymddiriedolwyr elusennau'r Ymddiriedolaeth, chi sy'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gynhaliwyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth gynnal fy archwiliad, rwyf wedi dilyn y Cyfarwyddiadau perthnasol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad arholwr annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy arholiad. Rwy'n cadarnhau nad oes unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn cysylltiad â'r arholiad annibynol sy'n rhoi achos i mi gredu mewn unrhyw ystyriaeth faterol:

- ni chedwir cofnodion cyfrifyddu yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf neu
- nid yw'r cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn cysylltiad â'r archwiliad y dylid tynnu sylw ato er mwyn gallu cael dealltwriaeth gywir o'r cyfrifon.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Arwyddwyd:** | SMW | **Dyddiad:** | 26/09/2022 |
| **Enw:** | Sian M. Williams | | |
| **Cymhwyster(au) neu gorff proffesiynol perthnasol (os oes rhai):** | ICAEW | | |
| **Cyfeiriad:** | 36, Stryd Fawr | | |
| | Pwllhei | | |
| | Gwynedd LL53 5RT | | |

# Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE          Rhif : 1188238

## Datganiadau Ariannol am y flwyddyn i 31 Rhagfyr 2021

### Cyfrif Incwm a Gwariant

| | Cronfeydd anghyfyngedig | Cronfeydd cyfyngedig | Cronfeydd gwaddol | Cyfanswm | Y Llynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | |
| Offrymau | £ 30,485 | - | - | **£ 30,485** | *£ 24,805* |
| Casgliad rhydd | £ 7 | - | - | **£ 7** | *£ 211* |
| Llogi'r Adeilad | £ 25 | - | - | **£ 25** | *£ 883* |
| Rhoddion arbennig | £ 1,790 | - | - | **£ 1,790** | *£ 823* |
| Cyfundeb Arfon (Grant) | £ 5,500 | - | - | **£ 5,500** | *£ 6,100* |
| Cymanfa Arfon (Grant) | £ 6,630 | - | - | **£ 6,630** | *£ 6,500* |
| Rhodd Cymorth | £ 5,473 | - | - | **£ 5,473** | *£ 5,690* |
| Llog | £ 494 | - | - | **£ 494** | *£ 696* |
| Apeliadau - **nodyn (b)** | £ 5,486 | - | - | **£ 5,486** | *£ 3,795* |
| ***Is-gyfanswm*** | **£ 55,890** | - | - | **£ 55,890** | *£ 49,502* |
| ***Cyfanswm yr Incwm*** | **£ 55,890** | **£ -** | **£ -** | **£ 55,890** | *£ 49,502* |
| **Gwariant** | | | | | |
| Costau'r weinidogaeth - **nodyn (a)** | £ 40,991 | - | - | **£ 40,991** | *£ 35,594* |
| Glanhau | £ 1,328 | - | - | **£ 1,328** | *£ 990* |
| Cynnal ac atgyweirio | £ 1,104 | - | - | **£ 1,104** | *£ 873* |
| Gwres a Goleu | £ 1,477 | - | - | **£ 1,477** | *£ 1,628* |
| Yswiriant | £ 2,557 | - | - | **£ 2,557** | *£ 2,344* |
| Gwaith eithriadol | £ 540 | - | - | **£ 540** | *£ 8,441* |
| Garddio a chynnal tir | £ 2,255 | - | - | **£ 2,255** | *£ 1,170* |
| Mudiad y Chwiorydd | £ 20 | - | - | **£ 20** | *£ 20* |
| Teleffon/gwasanaeth rhyngrwyd/Zoom | £ 1,732 | - | - | **£ 1,732** | *£ 1,266* |
| Gwariant swyddfa a'r gegin | £ 325 | - | - | **£ 325** | *£ 126* |
| Organ | £ - | - | - | **£ -** | *£ 489* |
| Achub y Plant | £ 1,220 | - | - | **£ 1,220** | *£ -* |
| Trethi Dwr | £ 158 | - | - | **£ 158** | *£ 235* |
| Llungopiwr | £ 1,405 | - | - | **£ 1,405** | *£ 1,236* |
| Amrywiol | £ 353 | - | - | **£ 353** | *£ 446* |
| Apêl Timothy Richards | £ 800 | - | - | **£ 800** | *£ -* |
| Cymorth Crisnogol | £ - | - | - | **£ -** | *£ 1,552* |
| Banc Bwyd | £ 1,875 | - | - | **£ 1,875** | *£ 2,545* |
| Ffi'r Archwiliwr | £ 2,400 | - | - | **£ 2,400** | *£ -* |
| BMS | £ 942 | - | - | **£ 942** | *£ 764* |
| ***Is-gyfanswm*** | **£ 61,482** | - | - | **£ 61,482** | *£ 59,718* |
| **Prynu Asedau** | | | | | |
| Gasebo | **£ 196** | - | - | **£ 196** | *£ 1,371* |
| | **£ -** | - | - | **£ -** | *£ 2,200* |
| ***Is-gyfanswm*** | **£ 196** | - | - | **£ 196** | *£ 3,571* |
| ***Cyfanswm y Gwariant*** | **£ 61,678** | - | - | **£ 61,678** | *£ 63,289* |
| ***Net o dderbyniadau/(taliadau)*** | **-£ 5,788** | **0** | **0** | **-£ 5,788** | *-£ 13,787* |
| ***Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd*** | - | - | - | - | *-* |
| ***Cronfeydd ariannol 01/01/2021*** | **£ 43,059** | - | - | **£ 43,059** | *£ 56,846* |
| ***Arian ar law ar ddiwedd y flwyddyn*** | **£ 37,270** | - | - | **£ 37,270** | *£ 43,059* |

| **Nodyn (a)** | |
|---|---|
| Costau'r Weinidogaeth | £ 26,582 |
| Cynllun Pensiwn y Weinidogaeth | £ 2,638 |
| Yswiriant Gwladol a Threth Incwm | £ 7,310 |
| Cytun Bangor | £ 100 |
| Llogi Swyddfa | £ 622 |
| Yr Ysgol Sul | £ 786 |
| Pregethwyr | £ 715 |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | £ 1,545 |
| Undeb yr Annibynwyr Cymraeg | £ 694 |
| | **£ 40,991** |

| **Nodyn (b)** | |
|---|---|
| Tysteb Menna Jones | £ 75 |
| Banc Bwyd | £ 2,215 |
| Ffoaduriaid | £ 675 |
| BMS | £ 1,165 |
| Achub y Plant | £ 1,201 |
| Yr Ysgol Sul | £ 155 |
| | **£ 5,486** |

## Datganiad o Asedau a Dyledion ar 31 Rhagfyr 2021

| Categoriau | Manylion | Cronfeydd anghyfyngedig | | Cronfeydd cyfyngedig | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Arian Parod** | Cyfrif Banc - Rhodd Cymanfa Arfon (Gwerthiant Bethel) | £ | 32,180 | £ | - |
| | Cyfrifon Banc (eraill) | £ | 5,090 | £ | - |
| | ***Cyfanswm cronfeydd arian parod*** | £ | 37,270 | £ | - |

| **Asedau Ariannol Eraill** | **Manylion** | **Cronfeydd anghyfyngedig** | | **Cronfeydd cyfyngedig** |
|---|---|---|---|---|
| | Allens Organs blaendal 2022 | £ | 489 | - |
| | Rhodd Cymorth | £ | 5,651 | - |

| **Asedau a gedwir at ddefnydd yr elusen yn unig** | **Manylion** | | **Cost** | | **Gwerth presennol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gliniadur (prynwyd yn 2020) | Cronfa anghyfyngedig | £ | 1,371 | £ | 1,000 |
| | Gasebo | Cronfa anghyfyngedig | £ | 196 | £ | 100 |

| **Dyledion** | **Manylion** | | **Cost** | |
|---|---|---|---|---|
| | Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol | Cronfa anghyfyngedig | £ | 1,900 |
| | BMS | Cronfa anghyfyngedig | £ | 223 |
| | Ffoaduriaid | Cronfa anghyfyngedig | £ | 675 |
| | Banc Bwyd | Cronfa anghyfyngedig | £ | 1,000 |
| | Ecclesiastical Insurance | Cronfa anghyfyngedig | £ | 1,573 |

| Arwyddyd ar ran yr ymddiriedolwyr | Llofnod | Enw | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| **Cadeirydd a Thrysorydd** | | **David Llewelyn Jones** | **26 Medi 2022** |

**EGLWYS GYDENWADOL EMAUS BANGOR**

England & Wales - Charity number 1188238

# Accounts

# Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr o 28 Chwefror 2020 hyd at 31 Rhagfyr 2020

## Enw'r Elusen: Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE

## Rhif yr Elusen: 1188238

## ❖ Amcanion a Gweithgareddau

Prif amcan yr Eglwys yw hyrwyddo'r ffydd Gristnogol yn ôl egwyddorion enwadau'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr yng Nghymru fel aelod o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gall yr Eglwys hefyd hybu addysg a chyflawni amcanion elusennol eraill yn y Deyrnas Unedig a/neu mewn rhannau eraill o'r byd.

Mae'r Eglwys wedi ei hymrwymo i gyrraedd cynulleidfa eang o fewn dinas Bangor a thu hwnt gan agor ei drysau i gynifer â phosibl i addoli yn yr Eglwys ac i fanteisio ar bob cyfle i ymuno mewn gweithgareddau addoli a chymdeithasol trwy gyfrwng y we a dulliau eraill. Mae'n rhoi ffydd ar waith mewn gweddi a gweithred, mewn cân a sacrament.

Wrth gynllunio ein gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn rhown bwyslais ar gynorthwyo pawb i fyw eu ffydd o ddydd i ddydd fel rhan o deulu'r Eglwys. Gwnawn hynny trwy:

Addoli a gweddi; astudio'r Gair a datblygu ein dealltwriaeth o'r ffydd Gristnogol.
Darparu gofal bugeiliol.
Cynorthwyo plant a phobl ifanc i dyfu yn y ffydd.
Hybu gwaith cenhadol.

I hyrwyddo'r gwaith hwn mae'n bwysig i ni gynnal yr adeilad a datblygu ein dulliau cyfrifiadurol, gan fanteisio ar y cyngor a'r cymorth a dderbynnir gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Undeb Bedyddwyr Cymru.

## ❖ Cyflawniadau a Pherfformiad

### Addoli a Gweddi

Mae'r Eglwys yn cynnig darpariaeth eang o gyfleoedd i addoli, yn bennaf ar y Sul, gan gynnwys oedfaon yn y capel, oedfaon dros Zoom (sydd yn ddatblygiad mewn ymateb uniongyrchol i Covid-19), a rhannu deunydd addoli i rai nad ydynt yn gallu bod yn bresennol yn y capel nac yn gallu cael mynediad cyfrifiadurol. Mae aelodau a chyfeillion yr eglwys yn gallu dewis derbyn cylchlythyrau wythnosol am weithgareddau'r eglwys a'r rhaglen addoli. Ar ddechrau 2020 roedd 168 o aelodau ar lyfrau'r eglwys ond mae dylanwad yr eglwys yn

ehangach na hynny, a'i drysau'n agored, gan gynnwys dros y we, i gyrraedd cynulleidfa estynedig.

Mae Ysgol Sul y plant a'r bobl ifanc, gyda chefnogaeth rhieni a theuluoedd yn ogystal â gwirfoddolwyr o blith yr aelodau, yn rhoi cyfleoedd i elwa ar weithgareddau amrywiol a chynhyrfus.

Mae dosbarth Ysgol Sul yr oedolion yn fforwm wythnosol werthfawr i astudio'r Beibl a dyfnhau dealltwriaeth o'n ffydd.

**Gofal Bugeiliol**

Mae cyfathrebu'n effeithiol gyda'n haelodau a'n cyfeillion yn greiddiol i waith yr eglwys, boed trwy ymweliadau neu trwy godi ffôn neu trwy rannu deunydd darllen, y cyfan dan arweiniad gweinidog yr eglwys gyda chymorth rhwydwaith o gynorthwywyr. Yn ogystal, dosberthir cylchgrawn misol – *Y Negesydd* –yn ddigidol ac yn gopïau caled i'r sawl sy'n dymuno hynny.

Cynhelir cyfarfodydd 'paned a sgwrs' misol dros Zoom fel dilyniant i'r cyfarfodydd yn festri'r eglwys, yn gyfle i aelodau a chyfeillion gynnal ei gilydd yn ogystal â thrafod materion y dydd. Yr un modd cynhelir Cylch Darllen rheolaidd

Mae'r eglwys wedi gweithredu fel canolfan i fudiad Bugeiliaid y Stryd Bangor, trefniant a ohiriwyd yn anorfod yn ystod cyfnod clo Covid-19.

**Gwaith cenhadol a chymdeithasol**

Fel rhan o weledigaeth ehangach yr eglwys mae grŵp o aelodau'n cynnal cyfarfodydd misol yn yr adeilad i hybu pryniant nwyddau Marchnad Deg ac i gefnogi gwaith Traidcraft. Llwyddwyd i gynnal y ddarpariaeth hon trwy gydol y cyfnod clo wrth addasu'r ffordd o dderbyn archebion a chludo'r nwyddau i gartefi unigol. Cefnogir hefyd waith elusennau lleol, gan gynnwys Banc Bwyd Bangor a gwaith dros y di-gartref yn y ddinas, yn ogystal â chyfrannu at waith rhyngwladol (gweler rhai manylion isod). Mae'r eglwys hefyd yn cyfrannu'n gyson at weithgareddau Cytûn Bangor.

## ❖ Adolygiad Ariannol

Cyfanswm y derbyniadau am y cyfnod cyfrifyddu oedd £45011, yn cynnwys offrymau, grantiau, rhodd cymorth ac incwm trwy logi festri'r adeilad. Er bod COVID wedi cael effaith ddifrifol ar ein gallu i gynnal gwasanaethau a gweithgareddau Cristnogol eraill yn adeilad yr Eglwys, nid yw hyn wedi cael effaith fawr ar ein hincwm am y cyfnod o dan sylw. Yn wir mae ein haelodau wedi aros yn deyrngar iawn i'r achos yn ariannol ac wrth fynychu gwasanaethau a gweithgareddau trwy Zoom.

Ar ben hynny, cawsom log o £696 trwy fuddsoddiadau yn eiddo Ymddiriedolwyr (y cyn) Eglwys Penuel, a £3795 a gyfrannwyd gan ein haelodau yn dilyn apeliadau yn y cyfnod am arian tuag at yr achosion elusennol canlynol:

- Banc Bwyd Bangor
- Cymorth Cristnogol
- Baptist Missionary Society

Mae’r cyfrifon yn dangos colled o £ 13787 am y cyfnod cyfrifyddu. Mae £ 8441 o hyn yn ymwneud â gwariant eithriadol ar adeilad yr Eglwys a gynhaliwyd yn y cyfnod hwn o ganlyniad adolygiad gan diacon yr Eglwys sy'n dal y portffolio eiddo, ar y cyd â'n cwmni yswiriant. Manteisiwyd ar y cyfle i wneud atgyweiriadau oedd wedi cronni dros nifer o flynyddoedd er mwyn sicrhau'r adeilad at ein defnydd parhaus fel eglwys gydenwadol yn y dyfodol. Hefyd gwariwyd swm ychwanegol o £15921 ar yr adeilad yn 2020 yn y cyfnod cyn cofrestru fel SCE.

Rydym yn ffodus yn Emaus i gyflogi gweinidog llawn amser ac mae'r costau sy'n gysylltiedig â'i gweinidogaeth yn cyfateb i 75% o incwm gweithredol yr Eglwys. Derbyniwyd grantiau yn cyfansymu £12600 yn y cyfnod cyfrifyddu tuag at gost y weinidogaeth gan Gymanfa Arfon (Undeb Bedyddwyr Cymru) a Chyfundeb Annibynwyr Arfon (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg).

Roedd cronfeydd anghyfyngedig wrth gefn ar ddiwedd 2020 yn £ 43059. Mae eu hangen i dalu costau cynnal a chadw adeiladu'r Eglwys yn y dyfodol ac ariannu a blaenoriaethu materion iechyd a diogelwch sy'n codi. Mae cronfeydd ac asedau cyfyngedig yr Eglwys (gan gynnwys yr adeilad) o dan ofal Ymddiriedolwyr (cyn) Eglwys Pendref Bangor ac Ymddiriedolwyr (cyn) Eglwys Penuel Bangor. Daeth y ddwy Eglwys ynghyd ar 1 Ionawr 2017 (gyda'r ddwy yn cadw eu bwrdd ymddiriedolwyr eu hunain) i ffurfio Eglwys Gydenwadol Emaus. Fel cam cyntaf tuag at undod llawn crëwyd Emaus SCE ar 28 Chwefror 2020 i reoli cronfeydd anghyfyngedig yr Eglwys unedig. Mae ymddiriedolwyr y tri bwrdd yn ymwybodol o'r angen i uno mewn un corff yn y dyfodol. Gyda hyn mewn golwg mae is-bwyllgor wedi'i ffurfio i ystyried y llu o faterion cyfreithiol cymhleth yn gysylltiedig â'r prosiect.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn hyderus i nodi nad oes gennym unrhyw ansicrwydd o gwbl bydd Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE yn parhau fel mudiad Cristnogol gweithredol.

## ❖ Strwythur, Llywodraeth a Rheolaeth

Mae dogfen lywodraethol yr Eglwys yn Gyfansoddiad Sefydliad Corfforedig Elusennol gydag aelodau â phleidlais gan gynnwys yr ymddiriedolwyr. Drafftiwyd y ddogfen hon yn unol â'r canllawiau swyddogol y Comisiwn Elusennau.

Penodir ymddiriedolwyr yn unol ag Adran 12 a 13 o’r Cyfansoddiad.

Oherwydd cyfyngiadau COVID, ar wahân i nifer fach iawn o wasanaethau yn adeilad yr Eglwys gyda chyfyngiad ar nifer yr addolwyr, cynhaliwyd ein holl wasanaethau trwy Zoom yn ystod y cyfnod cyfrifyddu cyfan. O ganlyniad roedd hi'n amhosibl cynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol. Felly mae'r tri ymddiriedolwr gwreiddiol yn parhau i wasanaethu am dymor arall.

Penododd yr ymddiriedolwyr Ysgrifennydd Aelodaeth yr Eglwys yn ymddiriedolwr ym mis Chwefror 2021 (ar ôl diwedd y cyfnod cyfrifyddu cyntaf).

Mae ymddiriedolwyr yr SCE hefyd i gyd yn aelodau o fwrdd diaconiaid a swyddogion yr Eglwys. Maent hefyd yn gweithio'n agos gyda'r ddau gorff o ymddiriedolwyr sydd, ar hyn o bryd, yn gyfrifol am gronfeydd cyfyngedig yr Eglwys (Ymddiriedolwyr y cyn Eglwys Pendref a'r cyn Eglwys Penuel). Y nod yn y pendraw yw ystyried cael un bwrdd o ymddiriedolwyr yn unig o fewn y SCE.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi rhoi sylw i ganllawiau budd cyhoeddus y comisiwn wrth arfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau y mae'r canllawiau'n berthnasol iddynt.

## ❖ Manylion cyfeirnodi a gweinyddol

| | |
|---|---|
| Enw’r Elusen | Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE |
| Rhif elusen gofrestredig: | 1188238 |
| Prif gyfeiriad yr Elusen | Eglwys Gydenwadol Emaus<br>Lôn Cariadon<br>Bangor<br>Gwynedd<br>LL57 2TE |
| Cyfeiriad gohebiaeth yr Elusen | 11 Gorseddfa<br>Criccieth<br>Gwynedd<br>LL52 0DW |

| **Enw’r ymddiriedolwr** | **Swydd** | **Dyddiadau'n gweithredu (os nad am flwyddyn gyfan)** | **Enw'r person (neu'r corff) sydd â hawl i benodi ymddiriedolwr (os oes un)** |
|---|---|---|---|
| Gareth Ffowc Roberts | Ysgrifennydd | - | - |
| Gwyn Eurig Davies | Cyfreithiwr | - | - |
| David Llewelyn Jones | Cadeirydd a Thrysorydd | - | - |

**Ymddiriedolwyr corfforaethol** – Dim

**Enw'r ymddiriedolwyr sy'n dal teitl eiddo sy'n eiddo i'r elusen** - Dim


**Cronfeydd a ddelir fel ymddiriedolwyr ceidwad ar ran eraill** - Dim

**Eithriadau rhag datgelu** – Dim

## ❖ Datganiadau

**Mae’r ymddiriedolwyr yn datgan eu bod wedi cymeradwyo adroddiad yr ymddiriedolwyr uchod.**

**Llofnodwyd ar ran ymddiriedolwyr yr elusen:**

| | |
|---|---|
| **Llofnod** |  |
| **Enw llawn** | **David Llewelyn Jones** |
| **Swydd** | **Cadeirydd a Thrysorydd** |
| **Dyddiad** | **9 Rhagfyr 2021** |

# Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE　　Rhif : 1188238

## Datganiadau Ariannol am y cyfnod 28 Chwefror 2020 i 31 Rhagfyr 2020

### Cyfrif Incwm a Gwariant

| | Cronfeydd anghyfyngedig | Cronfeydd cyfyngedig | Cronfeydd gwaddol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | |
| Offrymau | £ 24,805 | - | - | **£ 24,805** |
| Casgliad rhydd | £ 211 | - | - | **£ 211** |
| Llogi'r Adeilad | £ 883 | - | - | **£ 883** |
| Rhoddion arbennig | £ 823 | - | - | **£ 823** |
| Cyfundeb Arfon (Grant) | £ 6,100 | - | - | **£ 6,100** |
| Cymanfa Arfon (Grant) | £ 6,500 | - | - | **£ 6,500** |
| Rhodd Cymorth | £ 5,690 | - | - | **£ 5,690** |
| Llog | £ 696 | - | - | **£ 696** |
| Apeliadau elusennol | £ 3,795 | - | - | **£ 3,795** |
| ***Is-gyfanswm*** | **49,502** | - | - | **£ 49,502** |
| ***Cyfanswm yr Incwm*** | **49,502** | - | - | **49,502** |
| **Gwariant** | | | | |
| Costau'r weinidogaeth - **nodyn (a)** | £ 35,594 | - | - | **35,594** |
| Glanhau | £ 990 | - | - | **990** |
| Cynnal ac atgyweirio | £ 873 | - | - | **873** |
| Gwres a Goleu | £ 1,628 | - | - | **1,628** |
| Yswiriant | £ 2,344 | - | - | **2,344** |
| Gwaith eithriadol ar yr adeilad | £ 8,441 | - | - | **8,441** |
| Garddio a chynnal tir | £ 1,170 | - | - | **1,170** |
| Mudiad y Chwiorydd | £ 20 | - | - | **20** |
| Teleffon a gwasanaeth rhyngrwyd | £ 1,266 | - | - | **1,266** |
| Gwariant swyddfa | £ 126 | - | - | **126** |
| Organ | £ 489 | - | - | **489** |
| Trethi Dwr | £ 235 | - | - | **235** |
| Llungopiwr | £ 1,236 | - | - | **1,236** |
| Amrywiol | £ 446 | - | - | **446** |
| Banc Bwyd | £ 2,545 | - | - | **2,545** |
| Cymorth Cristnogol | £ 1,552 | - | - | **1,552** |
| BMS | £ 764 | - | - | **764** |
| ***Is-gyfanswm*** | **59,718** | - | - | **59,718** |
| **Prynu Asedau** | | | | |
| Gliniadur | **£ 1,371** | - | - | **£ 1,371** |
| Ad-daliad benthyciad di-log | **£ 2,200** | - | - | **£ 2,200** |
| ***Is-gyfanswm*** | **£ 3,571** | - | - | **£ 3,571** |
| ***Cyfanswm y Gwariant*** | **£ 63,289** | - | - | **£ 63,289** |
| ***Net o dderbyniadau/(taliadau)*** | **-£ 13,787** | **0** | **0** | **-£ 13,787** |
| ***Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd*** | - | - | - | - |
| ***Cronfeydd ariannol 27/02/2020*** | **£ 56,846** | - | - | **£ 56,846** |
| ***Arian mewn llaw ar 31/12/2020*** | **£ 43,059** | - | - | **£ 43,059** |

| Nodyn (a) | | |
|---|---|---|
| Costau'r Weinidogaeth | £ | 24,065 |
| Cynllun Pensiwn y Weinidogaeth | £ | 2,174 |
| Yswiriant Gwladol a Threth Incwm | £ | 6,054 |
| Cytun Bangor | £ | 150 |
| Treuliau'r Gweinidog | £ | 1,479 |
| Yr Ysgol Sul | £ | 760 |
| Pregethwyr | £ | 390 |
| Undeb/Cyfundeb Yr Annibynwyr | £ | 522 |
| | **£** | **35,594** |

## Datganiad o Asedau a Dyledion ar 31 Rhagfyr 2020

| Categoriau | Manylion | Cronfeydd anghyfyngedig | | Cronfeydd cyfyngedig | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Arian Parod** | Cyfrif Banc - Rhodd Cymanfa Arfon (Gwerthiant Bethel) | **£** | **32,874** | £ | - |
| | Cyfrifon Banc (eraill) | **£** | **10,185** | **£** | **-** |
| | ***Cyfanswm cronfeydd arian parod*** | **£** | **43,059** | **£** | **-** |

| | Manylion | Cronfeydd anghyfyngedig | | Cronfeydd cyfyngedig |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau Ariannol Eraill** | Allens Organs blaendal 2021 | **£** | **489** | - |
| | Rhodd Cymorth | **£** | **4,716** | - |
| | Offrymau wedi'u bancio ar ôl diwedd y flwyddyn | **£** | **165** | - |

| | Manylion | | Cost | |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau a gedwir at ddefnydd yr elusen yn unig** | Gliniadur | **Cronfa anghyfyngedig** | **£** | **1,371** |

| | Manylion | | Cost | |
|---|---|---|---|---|
| **Dyledion** | Cylchgrawn Y Tyst | **Cronfa anghyfyngedig** | **£** | **26** |
| | Treth Incwm a Cyfraniadau Yswiriant Gwladol | **Cronfa anghyfyngedig** | **£** | **1,823** |
| | Ecclesiastical Insurance | **Cronfa anghyfyngedig** | **£** | **1,547** |

| Arwyddyd ar ran yr ymddiriedolwyr | Llofnod | Enw |
|---|---|---|
| **Cadeirydd a Trysorydd** | | **David Llewelyn Jones** |

# Adroddiad archwiliwr annibynnol ar y cyfrifon

**Adran A** **Adroddiad yr archwiliwr annibynnol**

**Adrodd i ymddireidolwyr**

Enw'r Elusen
Eglwys Gydenwadol Emaus Bangor SCE

| **Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn yn diweddu** | 31ain Rhagfyr 2020 | **Rhif Elusen** | 1188238 |
|---|---|---|---|

Rwy'n adrodd i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr elusen uchod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 / 12 / 2020.

**Cyfrifioldebau a sail yr adroddiad**

Fel ymddiriedolwyr elusennau'r Ymddiriedolaeth, chi sy'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gynhaliwyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth gynnal fy archwiliad, rwyf wedi dilyn y Cyfarwyddiadau perthnasol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad arholwr annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy arholiad.  Rwy'n cadarnhau nad oes unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn cysylltiad â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu mewn unrhyw ystyriaeth faterol:

- ni chedwir cofnodion cyfrifyddu yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf neu
- nid yw'r cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn cysylltiad â'r archwiliad y dylid tynnu sylw ato er mwyn gallu cael dealltwriaeth gywir o'r cyfrifon.

**Arwyddwyd:** 

**Dyddiad:** 15/12/2021

**Enw:** Sian M.Williams

**Cymhwyster(au) neu gorff proffesiynol perthnasol (os oes rhai):** ICAEW

**Cyfeiriad:**
Griffith,Williams & Co
36, Stryd Fawr
Pwllheli, Gwynedd, LL53 5RT